Rhaglen Going Places

Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned

Art Fund_

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

Esmée Fairbairn FOUNDATION

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn cynnig ffordd i amgueddfeydd ddatblygu perthynas â chynulleidfaoedd, denu ymwelwyr, dod yn fwy perthnasol, meithrin ymddiriedaeth â phobl leol, a rhoi ymdeimlad o berchnogaeth dros amgueddfa a'i chasgliadau i gynulleidfaoedd.

Mae'n rhoi cyfle amhrisiadwy i wir ddeall anghenion a dymuniadau ymwelwyr a dylunio gwasanaethau a chynnwys sy'n diwallu'r anghenion hyn.

Sgiliau

- Hwyluso
- Amldasgio
- Gwrando
- Prydlondeb
- Cyfathrebu

Rhinweddau

- Proffesiynol
- Hyblyg
- Addasol
- Dilys
- Brwdfrydig
- Egnïol
- Ymwybyddiaeth
- Empathetig
- Gofalgar

Going Places Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned

Ymgysylltu â'r Gymuned

Ymgynghori

Mae sefydliadau diwylliannol a threftadaeth yn ceisio adborth, barn a safbwyntiau gan randdeiliaid, sef cymunedau lleol yn aml.

Gallai gwaith ymgynghori edrych fel...
- Grŵp ffocws gyda phobl ifanc i siapio cynnwys arddangosfa neu raglen.
- Arolwg ar-lein i gymunedau lleol er mwyn archwilio eu canfyddiadau a'u hymwybyddiaeth o amgueddfa.
- Gosod syniadau ar gyfer dyluniad oriel newydd mewn gofod yn eich amgueddfa a/neu leoliad cymunedol a gwahodd pobl i rannu sylwadau.

Proffesiynol

Prydlondeb

Addasol

Cyfranogiad

Sefydliadau diwylliannol a threftadaeth sy'n cychwyn, yn arwain ac yn rheoli'r gwaith, ond mae cyfranogwyr yn ymgysylltu'n weithredol ac yn cyfrannu at greu a rhannu cynnwys, gyda chyfleoedd i gysylltu â'i gilydd.

Gallai cyfranogiad edrych fel...
- Gweithdy o dan arweiniad artistiaid lle mae cyfranogwyr yn creu gwaith celf sy'n cael ei arddangos yn yr amgueddfa.
- Ymwelwyr yn cael cyfle i arddangos detholiad o weithiau celf.
- Cystadleuaeth ffotograffiaeth gymunedol lle mae cynigion y gystadleuaeth yn cael eu harddangos mewn amgueddfa.

Ymwybyddiaeth

Empathetig

Egnïol

Amldasgio

Hwyluso

Dilys

Hyblyg

Cyd-greu

Caiff cyfrifoldeb, penderfyniadau a pherchnogaeth dros y gwaith eu rhannu rhwng cydweithredwyr a sefydliadau diwylliannol a threftadaeth. Mae sefydliadau yn rhoi cymorth, offer ac adnoddau i gydweithredwyr i gyd-arwain y gwaith a chyflawni eu nodau cyffredin.

Gallai cyd-greu edrych fel...
- Gweithio ar y cyd â grŵp cymunedol i greu arddangosfa newydd.
- Cydweithredu gydag athrawon i gynhyrchu adnoddau ysgolion.
- Gweithio gyda theuluoedd lleol i greu rhaglen deuluol newydd.

Gofalgar

Brwdfrydig

Cyfathrebu

Gwrando

Lletya

Mae sefydliadau diwylliannol a threftadaeth yn cynnig rhai o'u cyfleusterau a/neu adnoddau i randdeiliaid fel y gallan nhw ddefnyddio'r amgueddfa i ddiwallu eu hanghenion a'u dymuniadau eu hunain.

Gallai Ymgysylltiad Lletya edrych fel...
- Darparu lle i grŵp cymunedol neu gymdeithasol gynnal cyfarfodydd rheolaidd.
- Grŵp cymunedol yn 'meddiannu' amgueddfa gyfan neu ofod mewn amgueddfa.
- Cynnal arddangosfa a grëwyd gan y gymuned mewn amgueddfa.

Cyflwyniad

Mae pecyn cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned Going Places wedi'i ddylunio i'ch cefnogi i gynllunio, cyflawni a gwerthuso gwaith ymgysylltu â'r gymuned mewn amgueddfeydd.

Mae'r pecyn cymorth wedi'i anelu at unrhyw un sy'n gweithio, neu a hoffai ddechrau gweithio ar brosiect ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys pobl sydd â llawer o brofiad o hynny neu bobl heb ddim profiad, a'r rheini sy'n gweithio mewn ystod eang o amgueddfeydd, orielau a sefydliadau diwylliannol.

Rhaglen gan Art Fund yw Going Places a wnaed yn bosib gyda chefnogaeth gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a chefnogaeth ychwanegol gan Sefydliad Esmée Fairbairn. Nod rhaglen Going Places yw ennyn diddordeb cynulleidfaoedd heb gynrychiolaeth ddigonol a chynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol a'u cynnwys mewn casgliadau amgueddfeydd drwy arddangosfeydd teithiol a rhaglenni cyhoeddus cydweithredol o ansawdd uchel.

Rydyn ni'n ddiolchgar i bartneriaid Going Places am gyd-greu'r pecyn cymorth hwn, am gyfrannu syniadau a phrofiadau gwerthfawr ac am lywio ei gwmpas a'i gynnwys. Diolch hefyd i dîm Art Fund ac ymgynghorwyr annibynnol a gefnogodd brosiect Going Places ac a gynigiodd gyngor arbenigol i gefnogi'r gwaith o greu'r pecyn cymorth.

Mae ymgysylltu â'r gymuned bob amser yn waith anorffenedig; mae'r derminoleg a'r syniadau blaengar yn cael eu datblygu'n barhaus. I gydnabod hyn, rydyn ni wedi cynnwys Geirfa Anghyflawn yn y pecyn cymorth, sy'n nodi diffiniadau sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned fel ag y maen nhw yn 2024. Gobeithiwn y bydd y pecyn cymorth a'r eirfa hon yn parhau i gael eu diweddaru wrth i'r sector ddatblygu ei arferion ymgysylltu â'r gymuned.

Mae'r pecyn cymorth wedi'i greu gan ymgynghorwyr amgueddfa annibynnol: Laura Crossley (www.lauracrossley.com), Sarah Plumb, a Marek Romaniszyn.

Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn

Does dim ffordd gywir nac anghywir o ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn.

Gallwch ddarllen y pecyn cymorth cyfan ar unwaith, neidio i mewn ac allan ohono, neu ddarllen yr adran(nau) sy'n apelio'n arbennig i chi. Byddem yn eich annog i'w lawrlwytho a'i gadw gyda chi ar eich taith ymgysylltu â'r gymuned.

Rydyn ni hefyd wedi creu nifer o fideos byr i gyd-fynd â'r pecyn cymorth.

Mae'r rhain yn rhoi cyflwyniadau i:

- Cysoni eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned â'ch strategaeth gyffredinol
- Cynllunio eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned
- Mathau o ymgysylltu â'r gymuned: Ymgynghori, Cyfranogiad, Cyd-greu, a Lletya

Mae cynnwys y Fideos yn debyg i'r pecyn cymorth ysgrifenedig.

Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys gofod i chi ysgrifennu neu dynnu llun o'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu, eich meddyliau a'ch syniadau. Eich pecyn cymorth chi yw hwn i'w ddefnyddio fel y dymunwch ac mewn ffordd sy'n gweithio i chi.



Capsiwn delwedd: Visitors with Old Money Bags(1964) gan Bruce Lacey, Oriel Gelf Leeds, ariannwyd gan Art Fund yn 2003 © Janie Airey/ Art Fund 2022

Pam mae Ymgysylltu â'r Gymuned yn bwysig?

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn cynnig ffordd i amgueddfeydd ddatblygu perthynas â chynulleidfaoedd, denu ymwelwyr, dod yn fwy perthnasol, meithrin ymddiriedaeth â phobl leol, a rhoi ymdeimlad o berchnogaeth dros amgueddfa a'i chasgliadau i gynulleidfaoedd.

Capsiwn delwedd: Visitors with Old Money Bags(1964) gan Bruce Lacey, Oriel Gelf Leeds, ariannwyd gan Art Fund yn 2003 © Janie Airey/ Art Fund 2022

Gall fod yn arfer pwerus er lles cymdeithasol a rhoi llwyfan i leisiau cymunedol, yn ogystal â bod yn arf pwysig i greu newid cymdeithasol cadarnhaol, yn eich sefydliad ac yn y gymdeithas ehangach. Gall ymgysylltu â'r gymuned hefyd chwarae rhan flaengar wrth greu mwy o amrywiaeth yng ngweithlu'r sector diwylliannol a threftadaeth.

Mae ymgynghori, cyfranogiad, a chyd-greu gyda chymunedau yn rhoi cyfle amhrisiadwy i wir ddeall anghenion a dymuniadau ymwelwyr er mwyn dylunio gwasanaethau a chynnwys sy'n diwallu'r anghenion hyn. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, datblygu arddangosfeydd ac arddangosiadau newydd, cynigion manwerthu a chaffi, datblygu gofodau awyr agored a dan do, yn ogystal â chasglu data a fydd yn cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau ymarferol a gweithredol e.e. oriau agor, prisiau mynediad, ac ati.

Wrth i amgueddfeydd orfod delio â chymaint o flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, gall ymgysylltu â'r gymuned deimlo fel rhywbeth 'ychwanegol' neu rywbeth 'braf i'w gael'.

Beth os, yn lle hynny, ei fod yn cael ei roi wrth galon arfer amgueddfeydd? Beth petai cynllunio prosiect yn dechrau gyda, **"Beth sydd ei angen ar ein cymunedau a beth maen nhw ei eisiau?"** neu **"Sut allwn ni wasanaethu a chefnogi ein cymunedau orau?"**. Nid rhywbeth ychwanegol yw ymgysylltu â'r gymuned ond yn hytrach rhan hanfodol o ddatblygu amgueddfeydd cydnerth. Os na fydd amgueddfeydd yn ymgysylltu â'u cymunedau, maen nhw mewn perygl o ddod yn amherthnasol, yn anhysbys ac yn ddiwerth, a gall hyn arwain at ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr a cholli incwm a chyllid.

Er nad yw ymgysylltu â'r gymuned yn ateb perffaith i greu amgueddfa wydn yn ariannol ar ei ben ei hunan, gall fod yn ffordd effeithiol o gefnogi gwydnwch yn y tymor hir.

Gall cysylltu â chynulleidfaoedd newydd, cynyddu nifer yr ymwelwyr, a datblygu cymorth (e.e. ffioedd aelodaeth, rhoddion, mynediad i ddigwyddiad, ac ati) helpu i greu nifer o ffrydiau incwm cynaliadwy a all ategu gweithgareddau eraill o greu incwm.

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn gweithio orau pan fydd wedi'i wreiddio mewn amgueddfa, gydag ymddiriedolwyr ac uwch arweinwyr yn blaenoriaethu dulliau cymunedol ac yn pennu cyllidebau i ganiatáu ar gyfer hyn, a'r holl staff yn mabwysiadu ymagwedd gymunedol – gan ystyried anghenion a dymuniadau'r gynulleidfa wrth ddylunio profiadau, cynhyrchion a gwasanaethau newydd.

Gobeithiwn fod y pecyn cymorth hwn yn cefnogi staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr i ddysgu mwy am ymgysylltu â'r gymuned, deall gwerth cynnwys cymunedau mewn amgueddfeydd, a theimlo'n hyderus i roi cynnig ar rai o'r dulliau a amlinellwyd.



Beth mae ymgysylltu â'r gymuned yn ei olygu i chi?

Pam mae'n bwysig i chi?

Pam mae'n bwysig i'ch amgueddfa?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Beth ydyn ni'n ei olygu wrth 'Gymuned'?

Term cyffredinol am grŵp o bobl yw 'Cymuned'. Gall olygu llawer o bethau gwahanol, gan gynnwys grwpiau o bobl â diddordebau tebyg, nodweddion cyffredin, o leoliad daearyddol penodol, a/neu sy'n rhannu hunaniaeth, diwylliant neu nodwedd warchodedig. Gallwch chi benderfynu sut i ddiffinio beth mae 'cymuned' yn ei olygu i'ch amgueddfa a'ch gwaith ymgysylltu â'r gymuned.

Mae'n bwysig cofio bod cymunedau bob amser yn newid, y gallai pobl uniaethu â rhai cymunedau yn fwy nag eraill, neu beidio â theimlo'n rhan o gymuned o gwbl, ac nid yw'r ffaith bod dau berson yn rhan o'r un gymuned yn golygu bod ganddyn nhw unrhyw beth arall yn gyffredin.

Efallai y byddwch yn penderfynu gweithio gyda chymunedau nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol neu gymunedau lleiafrifiedig fel rhan o'ch prosiect ymgysylltu â'r gymuned. Defnyddiwch wybodaeth staff a gwirfoddolwyr a data cynulleidfa (e.e. data mynediad, data demograffig, data arolygon, ac ati) i ddeall pa gymunedau mae eich amgueddfa yn ymgysylltu â nhw, a pha gymunedau nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Os nad oes gennych chi lawer o ddata cynulleidfa ar gael i chi, ystyriwch sut y gallwch chi gasglu hwn – er enghraifft, gallech gynnal ymgynghoriad â phobl yn eich cymuned leol (e.e. arolwg, grwpiau ffocws, cyfweliadau) neu siarad â sefydliadau ac elusennau eraill sy'n gweithio gyda chymunedau yn eich ardal leol.



Capsiwn delwedd: Pobl yn cymryd rhan yn 'Women's Lot', perfformiad sy'n cynnwys dawnsio bedwen haf a chân a ysbrydolwyd gan faledi gwerin o'r 18fed ganrif, a grëwyd gan Sally Gilford mewn cydweithrediad â'r grŵp celfyddydau cymunedol Oakenhoof, ar gyfer Art Assembly 2022 © Chris Payne/ Art Fund 2022

Pa ddata alla i ei ddefnyddio i ddeall pa gymunedau sy'n ymgysylltu â fy amgueddfa?

Pa ddata ychwanegol, os o gwbl, sydd angen i fi ei gasglu i ddeall cyfansoddiad ein cynulleidfaoedd presennol ymhellach?

Pa gymunedau mae fy amgueddfa yn ymgysylltu â nhw ar hyn o bryd?

Gyda pha gymunedau hoffai fy amgueddfa ymgysylltu â nhw yn y dyfodol? Pam hynny?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Dull Strategol o Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae'n bwysig cysoni gwaith ymgysylltu â'r gymuned â gweledigaeth, cenhadaeth, nodau ac amcanion eich amgueddfa.

Beth mae eich amgueddfa yn ceisio ei gyflawni a sut gallwch chi sicrhau bod eich gwaith ymgysylltu â'r gymuned yn helpu i gyflawni hyn?

Gosodwch nodau ac amcanion ar gyfer eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned sy'n cyd-fynd â strategaeth gyffredinol eich amgueddfa. Dylid diffinio a chytuno ar y rhain ar ddechrau'r prosiect.

Nodau yw'r hyn rydych chi'n gobeithio ei gyflawni h.y. bwriad cyffredinol eich prosiect – neu'r rheswm/rhesymau dros gynnal y prosiect. Er mwyn penderfynu ar eich nodau, meddyliwch am yr effeithiau rydych chi am i'r prosiect eu cael ar y cymunedau rydych chi'n gweithio gyda nhw, eich amgueddfa, eich staff, a'ch rhanddeiliaid.

Mae nodau fel arfer yn cael eu hysgrifennu gan ddechrau gyda berf. Er enghraifft, 'creu gwell cysylltiadau â phobl ifanc yn ein dinas'. 'Datblygu arddangosfa sydd wedi'i chyd-greu â theuluoedd lleol'. 'Deall yn well anghenion oedolion lleol nad ydyn nhw'n ymweld â'n hamgueddfa ar hyn o bryd'. 'Datblygu sgiliau staff wrth greu arddangosfeydd teithiol'. Does dim angen i chi greu llawer o nodau ar gyfer eich prosiect; efallai mai dim ond un nod cyffredinol sydd gennych ar gyfer eich prosiect, neu bedwar i bum nod ar y mwyaf.

Meddyliwch am y prif bethau rydych chi wir eisiau eu cyflawni gyda'ch prosiect.

Nodau sydd wedi'u rhannu'n dargedau penodol yw Amcanion. Tra bod nodau'r prosiect yn dangos yr hyn rydych yn ei wneud, mae'r amcanion yn dangos sut rydych yn ei wneud. Er mwyn diffinio eich amcanion, meddyliwch am yr hyn y bydd angen i chi ei wneud er mwyn cyflawni eich nodau.

Er mwyn pennu amcanion, defnyddiwch system CAMPUS:

- **Cyraeddadwy:** Yn gyraeddadwy yng nghyd-destun cyfyngiadau eich prosiect e.e. amser, capasiti, adnoddau; a heb fod yn rhy uchelgeisiol. Gofynnwch i'ch hunan: a yw'r amcan hwn yn rhywbeth y gellir yn rhesymol ei gyflawni gyda'r adnoddau a'r amser sydd ar gael?
- **Amserol:** Dangoswch erbyn pryd mae angen cwblhau pob amcan. Beth yw'r terfyn amser ar gyfer cyflawni'r amcan hwn?
- **Mesuradwy:** Mae meintioli eich amcanion yn ei gwneud hi'n haws olrhain cynnydd a gwybod pan fyddwch wedi cyrraedd y llinell derfyn. Dylid cynllunio amcanion mewn ffordd sy'n sicrhau eich bod yn gallu mesur i ba raddau mae'r amcanion wedi'u cyflawni.
- **Penodol:** Byddwch yn fanwl gywir ac yn glir am yr hyn y byddwch yn ei gyflawni. Beth yn union ydych chi'n mynd i'w wneud?
- **Uchelgeisiau:** A yw'n berthnasol i nodau'r prosiect ac i'ch amgueddfa. Gwnewch yn siŵr bod yr amcan yn cyd-fynd â'ch nodau a'ch uchelgeisiau cyffredinol.

Dyma enghreifftiau o amcanion CAMPUS:

- Cynydd o 5% yn nifer y teuluoedd rydyn ni'n ymgysylltu â nhw erbyn diwedd y prosiect.
- Gweithio gyda phump rhanddeiliad allanol newydd erbyn diwedd y prosiect.
- Mynd â'n harddangosfa ar daith i dair amgueddfa dros y 18 mis nesaf.
- Cynydd o 500 yn nifer y tanysgrifwyr i'r e-gylchlythyr misol dros y 12 mis nesaf.
- Bydd holl staff yr amgueddfa wedi cwblhau hyfforddiant ymgysylltu â'r gymuned erbyn diwedd y prosiect.

Mae pennu amcanion yn helpu i werthuso'r prosiect, oherwydd gallwch fesur i ba raddau mae'r prosiect wedi cyflawni'r amcanion hyn. Dylech gynnal gwerthusiad i fesur i ba raddau mae'r gwaith yn cyrraedd eich nod(au) a'ch amcanion.

Beth yw gweledigaeth, cenhadaeth, nodau ac amcanion fy amgueddfa? Sut mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â'r rhain?

Beth yw nodau'r prosiect?

Beth yw amcanion y prosiect?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Ymagwedd Sefydliad Cyfan at Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn gweithio orau pan fydd wedi'i ymgorffori'n llawn yn arferion yr amgueddfa, yn hytrach na chael ei ystyried yn gyfrifoldeb gan un aelod o staff neu nifer fach o staff yn unig.

Wrth gwrs, efallai y bydd gan eich amgueddfa swyddi staff sy'n cynnwys mwy o waith ymgysylltu â'r gymuned na swyddi eraill – er enghraifft, swyddog dysgu neu guradur – ond gall pob swydd mewn amgueddfa feddwl a gweithredu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Gallai hyn gynnwys, er enghraifft:

- Y tîm Cyllid yn rhoi gweithdrefnau a phrosesau ar waith sy'n cefnogi cyfranogwyr cymunedol i gael eu talu mewn ffordd hawdd a hygyrch.
- Y tîm Marchnata yn cysylltu â grwpiau ac arweinwyr cymunedol i helpu i hyrwyddo'r amgueddfa a'i gweithgareddau i gynulleidfaoedd cymunedol lleol.
- Staff manwerthu yn gweithio gyda gwneuthurwyr lleol i greu cynnyrch ar gyfer siop amgueddfa.

Mae'n bwysig bod pob aelod o staff a gwirfoddolwr yn deall sut i greu awyrgylch hygyrch, cynhwysol a chroesawgar i gymunedau. Gall diffyg croeso neu brofiad gwael mewn amgueddfa fod yn hynod niweidiol a gall rwystro pobl rhag ymweld eto, tra gall profiad cadarnhaol fod yn ddechrau ar ddatblygu cysylltiad hirdymor gydag ymwelydd neu grŵp cymunedol.

Er mwyn cefnogi agwedd sefydliad cyfan at ymgysylltu â'r gymuned, gallech wneud un neu fwy o'r canlynol:

- Cynnwys uchelgeisiau ynghylch ymgysylltu â'r gymuned yn **nodau cyffredinol eich amgueddfa a/neu ei gweledigaeth a/neu ei chenhadaeth.**
- **Eirioli dros waith ymgysylltu â'r gymuned ar draws y sefydliad.** Os oes gan bobl bryderon am ymgysylltu â'r gymuned, gwrandewch ar y pryderon hyn a thrafodwch atebion gyda nhw. Siaradwch yn agored ac yn onest am ymgysylltu â'r gymuned, pam ei fod yn bwysig, beth rydych chi'n gobeithio ei gyflawni drwy ymgysylltu â chymunedau, a sut mae eich nodau i ymgysylltu â'r gymuned yn cyd-fynd ag uchelgeisiau cyffredinol eich sefydliad.
- Sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn cael **hyfforddiant** ar sut i weithio a chyfathrebu'n effeithiol â chymunedau, gan gynnwys hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Cynnwys y gofyniad i weithio mewn ffyrdd sy'n canolbwyntio ar y gymuned ym mhob **disgrifiad swydd**. Cofiwch, mae'n rhaid i gyflogwyr a gweithwyr gytuno ar newidiadau i ddisgrifiadau swydd a rhaid iddynt ddilyn canllawiau Adnoddau Dynol a chadw at bolisïau Adnoddau Dynol eich amgueddfa. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y canllaw ACAS hwn. Os hoffech wneud newidiadau, mynnwch gyngor gan weithiwr Adnoddau Dynol proffesiynol.
- Gweithredu arferion **dysgu gan gyfoedion, hyfforddiant a/neu fentora i gefnogi** pobl â llai o brofiad o weithio gyda chymunedau i ddatblygu eu dealltwriaeth.

Pwy sy'n gwneud gwaith ymgysylltu â'r gymuned yn fy amgueddfa ar hyn o bryd?

Pwy ddylai fod yn rhan o'r gwaith yn y dyfodol? Sut gallen nhw gefnogi'r gwaith ymgysylltu â'r gymuned?

Beth sydd angen ei roi ar waith i gefnogi hyn e.e. hyfforddiant, mentora?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Moeseg ac Ymgysylltu â'r Gymuned

Cyn ymgymryd ag unrhyw fath o waith ymgysylltu â'r gymuned, mae angen i chi feddwl am foeseg. Pam ydych chi'n dewis gwneud gwaith ymgysylltu â'r gymuned? Pam ydych chi'n dewis mabwysiadu'r ymagwedd rydych chi'n ei chymryd? Ydych chi'n ei wneud am y rhesymau iawn? Beth yw'r budd i'r cymunedau sy'n cymryd rhan a'r amgueddfa rydych yn gweithio iddi?

Mae'n bwysig cadw'r cwestiynau hyn yn eich meddwl drwy gydol y broses; nid i greu ansicrwydd ynghylch gweithio gyda chymunedau ond i atgyfnerthu sicrwydd bod buddiannau'r gymuned, neu gymunedau, yn ganolog i'r gwaith. Gall gofyn y cwestiynau hyn i'ch hunan yn rheolaidd helpu i roi hyder i chi eich bod ar y llwybr cywir.

Gall ymgysylltu â'r gymuned fod yn waith gwerthfawr iawn i bawb dan sylw, ond os caiff ei wneud heb ystyried moeseg, mae perygl iddo gael effaith niweidiol ar gyfranogwyr, staff ac amgueddfeydd. Gall gosod moeseg yn flaenllaw yn eich arfer helpu i atal profiadau negyddol neu niweidiol i gyfranogwyr cymunedol a staff.



Capsiwn delwedd: Llyfrgell Menywod Glasgow, Rownd Derfynol Amgueddfa'r Flwyddyn, 2018

Moeseg Gofal

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u dylunio i'ch helpu i feddwl am foeseg gofal a sut i fynd i'r afael â moeseg gofal gyda phawb dan sylw, wrth i chi gynllunio a mynd ati i gyflawni gwaith ymgysylltu â'r gymuned:

- Caniatewch **amser i recriwtio a rhwydweithio** gyda chymunedau yn anffurfiol cyn dechrau ar y gwaith gyda nhw. Mae hyn yn helpu i feithrin perthynas gadarnhaol drwy wneud i bobl deimlo'n gyfforddus ac yn gosod y sylfeini ar gyfer perthynas o ymddiriedaeth.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o **bolisïau eich sefydliad** ynghylch diogelu staff, gweithwyr llawrydd, gwirfoddolwyr, neu gyfranogwyr prosiect sy'n rhan o'r gwaith. Gwnewch yn siŵr bod y polisïau hyn yn gyfredol ac yn adlewyrchu arferion gorau cyfredol. Mae gan Gweithredu Cymunedol Suffolk enghreifftiau o bolisïau diogelu ar eu gwefan.
- Aseswch **gapasiti staff, gweithwyr llawrydd, gwirfoddolwyr a chyfranogwyr cymunedol** wrth gynllunio eich gwaith i sicrhau bod eich prosiect yn cyd-fynd â chapasiti pobl. Cofiwch feddwl am lefelau egni pobl, y posibilrwydd o chwythu plwc, a llafur emosiynol sy'n gysylltiedig â gwneud gwaith cymunedol. Mae'n arfer da neilltuo amser i adfer ar ôl sesiwn neu ryngweithiad.
- Dewch o hyd i'r **gyllideb** gywir – o'ch cyllideb graidd, cyllid allanol, neu'r ddau – i wneud y gwaith hwn mewn modd moesegol. Gallai eich cyllideb gynnwys, er enghraifft, amser staff, ffioedd llawrydd, digolledu cyfranogwyr cymunedol, costau teithio, llogi ystafell, lluniaeth, a deunyddiau. Efallai yr hoffech ariannu swyddi staff ychwanegol neu waith llawrydd sy'n cefnogi llesiant staff a/neu gyfranogwyr, fel Ymarferydd Iechyd a Lles neu Hyfforddwr Sefydliadol.
- Wrth gynllunio a chyllidebu ar gyfer eich prosiect, meddyliwch am yr hyn **rydych yn ei gynnig i gymunedau am gymryd rhan**. A fydd pobl yn cael tâl am eu hamser a faint fyddan nhw'n cael eu talu? A fyddwch yn cynnig 'cymorth mewn nwyddau', fel mynediad am ddim i safleoedd, gwasanaethau neu ystafelloedd? A fydd pobl yn cael unrhyw hyfforddiant? A fyddwch chi'n talu costau teithio a lluniaeth pobl? Mae'r Fframwaith Digolledu yn y pecyn cymorth hwn yn rhoi mwy o gyngor ac arweiniad ar hyn.
- Pennwch **ffiniau clir gyda chyfranogwyr cymunedol** yn ystod y cam cynllunio neu pan fyddwch yn dechrau gweithio gyda nhw. Gallwch lunio contract neu femorandwm cyd-ddealltwriaeth â nhw i nodi'r hyn y bydd yr amgueddfa a'r grŵp cymunedol/cyfranogwyr yn ei gynnig ac yn ei roi i'r prosiect ac i'w gilydd.
- Cynlluniwch **amser i feddwl, myfyrio, a dogfennu'r gwaith rydych** chi'n ei wneud er mwyn gwneud yn siŵr bod y broses yn gweithio i bawb drwyddi draw. Mae'n bosib y bydd angen i chi newid neu arafu'r broses (ar ôl trafod gyda chyfranogwyr cymunedol a staff), cynnal ôl-drafodaeth, a chadw cofnodion neu nodiadau o sesiynau a rhyngweithiadau.

Moeseg Gofal

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u dylunio i'ch helpu i feddwl am foeseg gofal a sut i fynd i'r afael â moeseg gofal gyda phawb dan sylw, wrth i chi gynllunio a mynd ati i gyflawni gwaith ymgysylltu â'r gymuned:

- **Cefnogwch gydweithwyr i gael dealltwriaeth lawn o'r gwaith rydych yn ei wneud**, pam rydych yn ei wneud, a pha rôl(au) fyddan nhw'n ei chwarae wrth ei gyflawni. Dylech gyfathrebu'n glir ac yn rheolaidd a rhannu dogfennau perthnasol – gan gynnwys nodau ac amcanion y prosiect a chynllun amser y prosiect gyda cherrig milltir – i sicrhau bod pawb yn deall y prosiect a lle mae eu gwaith yn ffitio i mewn i'r prosiect yn gyffredinol.
- Gwnewch restr o **sefydliadau a gwasanaethau y gallai fod eu hangen arnoch neu y byddwch am gyfeirio cyfranogwyr cymunedol atynt**. Gallwch greu'r rhestr hon mewn cydweithrediad â grwpiau cymunedol.
- Sicrhewch fod gennych gynllun ar gyfer **beth fydd yn digwydd pan ddaw eich prosiect i ben**. A fyddwch yn parhau i weithio gyda phartneriaid cymunedol neu a fydd eich perthynas yn dod i ben? Os byddwch yn parhau i weithio, sut olwg fydd ar y berthynas honno? Os na fyddwch yn parhau i weithio, sut fyddwch chi'n dod â'r berthynas i ben mewn ffordd gadarnhaol? Mae cyfathrebu disgwyliadau yn glir gyda phartneriaid yn bwysig. Efallai y byddwch yn cydweithio â phartneriaid i benderfynu beth fydd yn digwydd pan ddaw'r prosiect i ben.

Staff a Gweithwyr Llawrydd

Rhaid i foeseg gofal hefyd gynnwys staff, gweithwyr llawrydd, a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar y prosiect neu'n ei gefnogi.

- Rhowch **staff ac adnoddau priodol** ar waith (e.e. amser staff, tâl) i osgoi gorlwytho a gorweithio posib. Dylech greu prosiectau realistig sy'n bosib o fewn yr amser a gyda'r adnoddau sydd ar gael. Os na allwch wneud popeth yr hoffech ei wneud i ddechrau, meddyliwch am sut y gallwch greu rhaglen fwy hirdymor o waith ymgysylltu â'r gymuned sy'n eich galluogi i gyflawni eich holl uchelgeisiau dros gyfnod hirach o amser.
- Pennwch **gyllidebau llawrydd realistig a moesegol**. Gwnewch yn siŵr bod cyfraddau dydd gweithwyr llawrydd yn deg – cofiwch, yn ogystal â thalu am arbenigedd gweithwyr llawrydd, mae cyfraddau dydd hefyd yn cynnwys tâl gwyliau a salwch, yswiriant, a chostau llawrydd eraill. Peidiwch byth â disgwyl i weithwyr llawrydd weithio am ddim. Os nad ydych yn siŵr pa gyllideb i'w phennu, gofynnwch am gyngor gan weithwyr llawrydd.
- Rhowch **brosesau caffael a thalu clir ar waith ar gyfer gweithwyr llawrydd**. Talwch yn brydlon a pheidiwch byth â thalu'n hwyrach na 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb.
- Gosodwch **ddisgwyliadau clir ynghylch yr hyn y bydd angen i weithwyr llawrydd ei wneud** a'r hyn na fydd yn ofynnol iddynt ei wneud fel rhan o'r prosiect. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cytuno ar delerau ac amodau ac yn rhoi contract ar waith. Ceisiwch feithrin perthnasoedd da gyda gweithwyr llawrydd a chyfathrebu â nhw yn glir ac yn rheolaidd.
- Ystyriwch gynnig **mentora neu gefnogaeth gan gyfoedion** i bobl sy'n gweithio ar brosiect i'w helpu i ennill profiad, ceisio cyngor, rhannu unrhyw anawsterau, a dod o hyd i atebion i broblemau. Gallai hwn fod yn fentor neu'n gyfaill mewnol neu allanol i'ch amgueddfa.
- Byddwch yn ymwybodol o'r **cyd-destun a'r hinsawdd ddiwylliannol** rydyn ni'n gweithio ynddynt. Dylech greu **cynllun cyfathrebu mewnol ac allanol** fel rhan o'r broses gynllunio. Gallech wneud hyn gyda'ch tîm Marchnata a Chyfathrebu os oes gennych un, neu arbenigwr cyfathrebu llawrydd. Paratowch Gwestiynau Cyffredin a thaflen wybodaeth ar gyfer staff mewnol a gwirfoddolwyr, gan nodi'n union beth yw pwrpas y prosiect a'r negeseuon allweddol y dylen nhw fod yn ymwybodol ohonynt, er enghraifft, os bydd ymwelwyr yn gofyn cwestiynau iddyn nhw. Gallech baratoi datganiadau ymlaen llaw i'w defnyddio mewn datganiadau i'r wasg a chyfathrebu allanol, gan gynnwys cyfleu eich prosiect a'i amcanion yn glir, ynghyd â safbwynt ac ymrwymiad eich amgueddfa i'r gwaith. Sicrhewch fod eich partneriaid cymunedol yn cael eu cynnwys yn eich cynlluniau cyfathrebu; mae gennych gyfrifoldeb i lwyfannu ac amddiffyn partneriaid.

Staff a Gweithwyr Llawrydd

Rhaid i foeseg gofal hefyd gynnwys staff, gweithwyr llawrydd, a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar y prosiect neu'n ei gefnogi.

- Darparwch **hyfforddiant priodol** i'r rhai sy'n gweithio ar y prosiect. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, diogelu, arfer wedi'i lywio gan drawma, ymwybyddiaeth iechyd meddwl, ac ati.
- Neilltuwch amser ar gyfer **adolygu a myfyrio** ar eich arfer a gwiriwch yn rheolaidd gyda phawb sy'n rhan o'r broses. Efallai y byddwch am gyfuno hyn â diwrnodau cwrdd i ffwrdd y tîm neu amser i ffwrdd o'r amgueddfa.
- Dylai unrhyw un sy'n rheoli pobl sy'n rhan o'r gwaith barhau i gynnal cyfarfodydd un-i-un rheolaidd gyda nhw a chynnig lle i wneud **gwiriadau llesiant**. Gallech greu Cynlluniau Gweithredu Llesiant i gefnogi'r broses hon.
- Gwnewch yn siŵr bod yr holl **staff yn cael eu cefnogi mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw**. Efallai y byddwch yn rhoi pecynnau mynediad staff, gwirfoddolwyr a gweithwyr llawrydd ar waith i helpu i greu amgylcheddau gwaith cynhwysol. Dylech ddeall beth yw eich cyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl yn y gweithle.

Beth sydd angen i fi ei ystyried a'i roi ar waith er mwyn i'r gwaith fod mor foesegol â phosib?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Rhinweddau a Sgiliau ar gyfer Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae hwyluso gwaith ymgysylltu â'r gymuned sy'n foesegol ac yn effeithiol yn gofyn am ystod o rinweddau a sgiliau personol. Rydych chi'n gweithredu fel sianel rhwng y cymunedau rydych chi'n gweithio gyda nhw a'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli, gan reoli disgwyliadau, nodau, amcanion, proses, allbynnau a chanlyniadau'r gwaith, a'r bobl sydd â diddordeb ynddo.

Gall ymgysylltu â'r gymuned fod yn frawychus pan fyddwch chi'n dechrau arni, ond y mwyaf y byddwch chi'n ei wneud, y mwyaf hyfedr a hyderus y byddwch chi. Yn ystod y broses hon, byddwch nid yn unig yn dysgu mwy am amrywiaeth y cymunedau ond hefyd mwy amdanoch chi'ch hunan. Drwy ymarfer ymgysylltu â'r gymuned yn rheolaidd, byddwch yn parhau i ddatblygu hyfedredd a hyder.

Gallwch hefyd wella'ch dysgu drwy ymchwil, hyfforddiant, cefnogaeth gan gyfoedion a mentora. Mae buddsoddi mewn hyfforddiant i barhau i ddatblygu a mireinio eich sgiliau yn werthfawr iawn.



Capsiwn delwedd: Tŷ Pawb, Wrecsam, rownd derfynol Amgueddfa'r Flwyddyn 2022, © Emli Bendixen/ Art Fund © Emli Bendixen/Art Fund 2022

Rhinweddau a Sgiliau ar gyfer Ymgysylltu â'r Gymuned

Dyma restr o'r rhinweddau a'r sgiliau sydd eu hangen i hwyluso gwaith ymgysylltu â'r gymuned. Mae rhai ohonynt yn fwy arbenigol (e.e. sgiliau hwyluso) ac eraill yn fwy cyffredinol (e.e. cadw amser) ond maen nhw i gyd yn rhan annatod o greu mannau croesawgar a phrofiadau a chanlyniadau cadarnhaol i bawb dan sylw.

Rhinweddau: gofalgar, empathetig, moesegol, egn.ol, brwdfrydig, diffuant, proffesiynol, hyblyg, addasu, ymwybodol.

Sgiliau: cyfathrebu, hwyluso, gwrando, amldasgio, cadw amser.

- Mae ymgysylltu â'r gymuned yn gofyn am **ofal** ac **empathi** ar gyfer y cymunedau rydych yn ymgysylltu â nhw. Cadwch **foeseg** yn flaenllaw yn eich meddwl wrth i chi gynllunio a chyflawni'r prosiect. Gallech fod yn gweithio gyda chynulleidfaoedd nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan eich sefydliad. Cymerwch amser i ddod i ddeall anghenion a dymuniadau pawb.
- **Cyfathrebwch** yn glir a **hwyluso'r** fforymau lle mae'r sgyrsiau, y trafodaethau a'r creadigrwydd yn digwydd. Mae angen i chi allu **cynnal y gofod** heb fod yn llethol. Gallwch ddysgu mwy am 'gynnal y gofod' yn yr Eirfa Anghyflawn ac yn yr adnodd ar-lein hwn.
- **Gwrandewch yn astud** ar y cymunedau rydych yn gweithio gyda nhw. Byddwch yn rhan o'r sgwrs. Talwch sylw i ryngweithiadau geiriol a di-eiriau. Gwrandewch yn astud ar y siaradwyr. Gofynnwch gwestiynau penagored i annog ymatebion pellach. Dylech aralleirio ac adlewyrchu'n ôl ar yr hyn mae'r siaradwyr wedi'i ddweud er mwyn sicrhau eglurder a'u galluogi i fyfyrio ymhellach. Gwrandewch er mwyn deall safbwynt siaradwyr heb farn.
- **Amldasgiwch** pan fo angen. Er enghraifft, efallai y byddwch yn cymryd cofnodion neu nodiadau i gael eglurder, myfyrio, crynhoi a rhannu tra bod sesiynau'n cael eu cynnal. Gallech ofyn i gydweithiwr eich cefnogi fel arsylwr ac i gymryd nodiadau mewn sesiwn er mwyn i chi allu canolbwyntio ar hwyluso'r sesiwn. Fel arall, gyda chaniatâd ysgrifenedig gan gyfranogwyr, gallech recordio'r sesiwn.
- Mae **prydlondeb** yn hanfodol i lif a darpariaeth y gwaith o ymgysylltu â'r gymuned, a llesiant pawb sy'n rhan o'r gwaith. Mae dechrau a gorffen ar amser yn weithred o ofal, gan ddangos eich bod yn poeni am amser ac ymrwymiadau eraill y cyfranogwyr. Byddwch yn hyblyg o ran y sesiynau pan fo modd. Os byddwch chi'n gweld bod tasgau'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl, newidiwch eich dull neu leihau nifer y gweithgareddau, yn hytrach na rhedeg dros amser.
- Dangoswch eich **egni** a'ch **brwdfrydedd** er mwyn rhoi hwb i'r gwaith, a chofiwch symud eich sesiynau ymlaen ar y cyflymder cywir i chi a'ch cyfranogwyr. Byddwch yn ymwybodol o'ch lefelau egni eich hunan; gall gwaith ymgysylltu sugno egni yn gyflym ac mae angen i gyflymder eich sesiynau fod yn briodol i sicrhau nad ydych yn colli'ch plwc.
- Byddwch yn groesawgar ac yn gyfeillgar er mwyn meithrin cysylltiadau cymunedol **dilys**, gan parhau i fod yn **broffesiynol** er mwyn cynnal ffiniau.
- Byddwch yn gyfforddus gydag ansicrwydd. Nid yw gwaith ymgysylltu â'r gymuned o reidrwydd yn dilyn llwybr penodol, a gall gynnwys llwybrau a chanlyniadau annisgwyl, yn enwedig os ydych yn defnyddio dulliau cyd-greu. Mae angen i chi fod yn **hyblyg** a gallu **addasu** i ddiwallu anghenion pawb sy'n rhan o'r gwaith.
- Byddwch yn **ymwybodol** o derfynau eich arbenigedd a'ch lefel egni. Efallai y bydd angen i chi ddefnyddio arbenigedd pobl eraill neu gyfeirio pobl at adnoddau pellach. Byddwch yn ymwybodol o'ch lefelau egni a gwnewch yn siŵr eich bod yn cymryd seibiannau priodol ac yn gorffwys i sicrhau nad ydych yn colli'ch plwc.

Sgiliau Hwyluso

Mae hwyluso yn elfen allweddol o waith ymgysylltu â'r gymuned, p'un a ydych yn hwyluso grŵp ffocws neu weithdy untro neu gyfres o sesiynau cyd-greu.

Peidiwch â phoeni os ydych chi'n newydd i'r math hwn o waith. Mae hwyluso yn grefft y gellir ei dysgu a'i datblygu. Os teimlwch fod angen i chi ddatblygu neu wella eich sgiliau, gallech ymgymryd â hyfforddiant neu gael cymorth gan gydweithiwr neu rywun yn eich rhwydwaith. Y ffordd orau o wella'ch sgiliau yw parhau i ymarfer.

Dyma rai awgrymiadau ar gyfer hwyluso'n dda:

- Dylech bennu pwrpas a chanlyniadau dymunol ar gyfer y gweithdy, cyfarfod neu sesiwn rydych yn ei hwyluso ymlaen llaw. Er enghraifft, ydych chi am helpu cyfranogwyr i ddod i adnabod ei gilydd, cynhyrchu syniadau newydd, datrys problemau, neu wneud penderfyniad ar y cyd? Dewch o hyd i strwythur gweithdy neu sesiwn a fydd yn helpu'r grŵp i feddwl a chydweithio'n effeithiol. Gallai hyn gynnwys trafodaeth agored, trafodaeth strwythuredig, a/neu ymarferion neu gemau i helpu pobl i rannu barn, meddwl am syniadau, a gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd. Gallwch ddod o hyd i syniadau ar gyfer ymarferion hwyluso ar wefan Seeds for Change.
- Sicrhewch fod cyfranogwyr yn deall ar beth fydd eu cyfraniadau'n dylanwadu a beth sydd tu allan i gwmpas y gwaith. Er enghraifft, gallai pobl sy'n cymryd rhan mewn ymarfer ymgynghori ddylanwadu ar gynnwys arddangosfeydd ond ni fyddan nhw'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau terfynol am y cynnwys, ac efallai na fydd eu holl syniadau yn dwyn ffrwyth.
- Peidiwch â cheisio gwneud gormod mewn un sesiwn. Meddyliwch am yr hyn sy'n rhesymol i'w gyflawni yn yr amser sydd ar gael i chi.
- Rhowch ystyriaeth i hygyrchedd a chynhwysiant. Gwnewch yn siŵr bod y sesiynau mor gyfforddus â phosib i bob cyfranogwr. Rhowch gyfle i gyfranogwyr rannu unrhyw anghenion hygyrchedd gyda chi cyn y sesiwn. Cofiwch greu amgylchedd cynhwysol a rhoi croeso cynnes. Ystyriwch gynnwys ffyrdd gwahanol o gyfrannu – er enghraifft meddwl unigol, trafodaethau mewn parau a/neu grwpiau, ysgogiadau gweledol, gweithgareddau ymarferol – i gefnogi anghenion a dewisiadau amrywiol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllaw ar-lein hwn gan y Fforwm Anabledd a Dyngarwch. Er mwyn creu amgylchedd croesawgar a diogel i bawb, ystyriwch ddefnyddio technegau hwyluso sy'n seiliedig ar drawma.
- Defnyddiwch fformat sy'n diwallu anghenion pobl – er enghraifft, efallai y byddai'n well gan gyfranogwyr sesiynau wyneb yn wyneb neu sesiynau ar-lein, neu fodel hybrid.
- Cyfathrebwch yn glir. Gwnewch yn siŵr bod pawb yn deall yr hyn rydych chi'n ei ofyn ganddyn nhw.

Sgiliau Hwyluso

Mae hwyluso yn elfen allweddol o waith ymgysylltu â'r gymuned, p'un a ydych yn hwyluso grŵp ffocws neu weithdy untro neu gyfres o sesiynau cyd-greu.

Peidiwch â phoeni os ydych chi'n newydd i'r math hwn o waith. Mae hwyluso yn grefft y gellir ei dysgu a'i datblygu. Os teimlwch fod angen i chi ddatblygu neu wella eich sgiliau, gallech ymgymryd â hyfforddiant neu gael cymorth gan gydweithiwr neu rywun yn eich rhwydwaith. Y ffordd orau o wella'ch sgiliau yw parhau i ymarfer.

- Dylech osod a rheoli'r disgwyliadau sydd ar bobl fel bod pawb yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ganddyn nhw ac yn deall rolau a chyfrifoldebau. Os ydych chi'n creu gwaith ar y cyd, efallai y byddwch am bennu'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn gyda'r cyfranogwyr.
- Cofiwch gynnwys gweithgaredd cychwynnol i helpu'r grŵp i gynhesu ac i ddod i adnabod ei gilydd os oes angen. Dylech gynnwys gweithgaredd cloi hefyd – gallai hwn fod yn gyfle i ailadrodd y prif bwyntiau neu i ofyn am unrhyw gwestiynau munud olaf.
- Os ydych chi'n gweithio gyda grŵp dros gyfnod o amser, gweithiwch gyda'ch gilydd i greu contract grŵp yn ystod y sesiwn gyntaf, sy'n nodi pa ymddygiadau y bydd pob aelod o'r grŵp yn cadw atynt. Gallai'r contract gynnwys penderfyniad gan y grŵp ynghylch sut i fynd i'r afael ag unrhyw sylwadau neu ymddygiadau a allai fod yn niweidiol i eraill.
- Ar gyfer sesiynau untro, fel grwpiau ffocws, pennwch ddisgwyliadau ar ddechrau'r sesiwn – er enghraifft, beth sydd angen i gyfranogwyr ei wneud i ddangos eu bod eisiau siarad (e.e. codi llaw). Gwnewch yn glir i gyfranogwyr na fydd sylwadau ac ymddygiadau sarhaus a/neu niweidiol yn cael eu goddef.

Pa sgiliau sydd gen i eisoes?

Pa sgiliau sydd angen i fi eu dysgu neu eu datblygu?

Sut bydda i'n dysgu neu'n datblygu'r sgiliau hyn?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Cydweithredu ag Amgueddfeydd eraill ar waith Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae partneriaid Going Places yn gweithio mewn rhwydweithiau bach i greu arddangosfeydd a fydd yn teithio i bob amgueddfa yn y rhwydwaith. Gallech chi wneud prosiect tebyg neu ddefnyddio dull arall sy'n cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag amgueddfeydd eraill.

Capsiwn delwedd: Turner Contemporary, Gweithdy Teulu a Dysgu © Turner Contemporary

Dyma awgrymiadau ar sut i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag amgueddfeydd a sefydliadau eraill:

- Dechreuwch drwy rannu **gweledigaeth, amcanion a chenhadaeth eich sefydliad**. Ystyriwch beth sydd gennych yn gyffredin, beth sy'n bwysig i bob sefydliad, a pha nodau a rennir y gallai eich prosiect helpu i'w cyflawni.
- Rhannwch **gryfderau a gwendidau unigol a sefydliadol**. Beth allwch chi ei ddysgu gan eich gilydd? Pwy ddylai fod yn gyfrifol am bob rhan o'r prosiect? A oes cyfleoedd ar gyfer dysgu rhwng cyfoedion ar draws sefydliadau?
- Penderfynwch ar eich **'llinellau coch' unigol ac ar y cyd** – beth na fyddwch chi'n ei wneud yn y prosiect hwn?
- Dewch i ddeall beth **sydd angen gweithio er mwyn gwneud** i'r **cydweithredu ddigwydd a phenderfynwch ar ddisgwyliadau ar gyfer cydweithio**. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cytuno ar sut y byddwch yn cyfathrebu, pa mor aml y byddwch yn cyfathrebu, pryd a ble y byddwch yn cwrdd, swyddi a chyfrifoldebau, a chyfyngiadau a ffiniau a rennir ar gyfer y prosiect. Lluniwch gontract neu femorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi'r rhain yn ysgrifenedig.
- **Defnyddiwch yr un trylwyredd wrth weithio gydag amgueddfeydd partner ag y byddwch chi'n ei wneud wrth weithio gyda chymunedau**. Dylech greu mannau diogel ar gyfer sgyrsiau gonest ac agored a dod i adnabod eich gilydd drwy dreulio amser yn meithrin perthnasoedd, ymddiriedaeth a chydberthynas.
- **Cyfathrebwch yn glir ac yn rheolaidd**. Os bydd problemau'n codi, gweithiwch gyda'ch gilydd i'w datrys a dod o hyd i atebion a rennir.
- **Trafodwch unrhyw anawsterau yn fuan** cyn iddyn nhw waethygu. Os bydd perthnasoedd yn mynd yn anodd neu o dan straen, ewch ati i roi pethau yn eu lle i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau. Er enghraifft, gallech weithio gyda hwylusydd neu hyfforddwr allanol i'ch helpu i weithio drwy'r problemau neu ofyn am gyngor gan fentor neu ymgynghorydd.
- **Dathlwch y cyd-lwyddiannau**. Ystyriwch sut y byddwch yn dathlu llwyddiant a diolchwch i staff, gweithwyr llawrydd a gwirfoddolwyr – yn ogystal â chyfranogwyr cymunedol – sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect.
- **Penderfynwch a ydych chi am gadw'r berthynas i fynd ar ôl i brosiect ddod i ben, a sut**. Sut olwg allai fod ar berthynas hirdymor? Os nad ydych chi'n mynd i gydweithio eto, sut ydych chi'n mynd i ddod â'r berthynas i ben mewn ffordd dda?



Pa bartneriaid, os o gwbl, hoffwn i gydweithio â nhw a pham? Sut bydda i'n mynd at ddarpar bartner?

Pan fydd y partneriaid yn eu lle, sut bydda i'n cydweithio'n effeithiol â nhw i sicrhau canlyniadau da i bawb?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Cyllid

Efallai y byddwch yn penderfynu gwneud cais i un neu fwy o gyrff ariannu i helpu i ariannu eich gwaith ymgysylltu â'r gymuned. Rydyn ni wedi rhestru nifer o arianwyr posib ac wedi cynnwys dolen i'r Cyfeiriadur Ariannu Treftadaeth, sy'n cynnwys gwybodaeth am ystod eang o ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Dyma bethau mae angen i chi eu hystyried wrth wneud cais am gyllid:

- Mae llawer o **arianwyr yn croesawu'r ffaith bod darpar ymgeiswyr yn cysylltu â nhw**. Manteisiwch ar y cyfle i drafod eich syniadau am brosiect a'ch cais i wneud yn siŵr eich bod ar y trywydd iawn.
- Dewch i ddeall **blaenoriaethau a meini prawf grantiau pob ariannwr** a gwnewch yn siŵr bod eich cais yn bodloni'r meini prawf hyn.
- **Eglurwch eich prosiect yn glir** fel bod yr ariannwr yn deall yn union beth fyddwch chi'n ei wneud. Atebwch y cwestiynau: Beth?, Pwy?, Pam?, Ble?, Sut?, a Phryd? Mae'n bwysig iawn esbonio pam mae angen eich prosiect – pa wahaniaeth fydd y prosiect yn ei wneud i bobl, cymunedau, a'ch sefydliad?; pam mae hyn yn bwysig?; pam mae angen i'r prosiect ddigwydd nawr?; beth fydd y canlyniad(au) os na fydd y prosiect yn dwyn ffrwyth?
- Eglurwch **sut mae eich prosiect yn cyd-fynd â nodau ac amcanion cyffredinol eich sefydliad**.
- Darparwch **dystiolaeth bod angen eich prosiect**. Gallai hyn gynnwys data cynulleidfa sy'n dangos bod gan eich sefydliad y potensial i feithrin perthynas â chynulleidfaoedd newydd, gwybodaeth gyd-destunol (e.e. tystiolaeth o angen cymunedol lleol), a llythyron o gefnogaeth gan bartneriaid prosiect.
- Dylech gynnwys **cyllideb glir**. Dadansoddwch y costau fel bod yr ariannwr yn deall yn union sut y caiff yr arian ei fuddsoddi. Gofynnwch am ddyfynbrisiau ac amcangyfrifon i'ch helpu i bennu costau eitemau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys eitemau sy'n gymwys yn unig.
- **Gofynnwch i rywun wirio eich cais;** mae'n hawdd anghofio rhywbeth neu fethu cam-sillafiadau.
- **Cofiwch gynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar yr ariannwr**, gan gynnwys unrhyw ddogfennau ychwanegol.
- Gwnewch nodyn o **ddyddiadau cau gwneud cais am gyllid** a rhowch ddigon o amser i'ch hunan ysgrifennu a chyflwyno'r cais.
- Os bydd eich cais yn **aflwyddiannus**, gofynnwch am adborth os bydd yr ariannwr yn caniatáu hynny. Os byddwch yn dilyn yr adborth hwn ac yn gwneud cais eto, mae'n bosib y byddwch yn derbyn cyllid yn y dyfodol.
- Os byddwch yn **llwyddiannus**, gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon unrhyw waith papur angenrheidiol yn ôl at yr ariannwr erbyn y dyddiad cau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall ac yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant.

Cyllid

Efallai y byddwch yn penderfynu gwneud cais i un neu fwy o gyrff ariannu i helpu i ariannu eich gwaith ymgysylltu â'r gymuned. Rydyn ni wedi rhestru nifer o arianwyr posib ac wedi cynnwys dolen i'r Cyfeiriadur Ariannu Treftadaeth, sy'n cynnwys gwybodaeth am ystod eang o ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Arianwyr Posib

- Art Fund: https://www.artfund.org/professional/get-funding
- Cyngor Celfyddydau Lloegr: https://www.artscouncil.org.uk/our-open-funds
- Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol: https://aim-museums.co.uk/for-aim-members/grants/
- Cymdeithas yr Amgueddfeydd: https://www.museumsassociation.org/funding/
- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol: https://www.tnlcommunityfund.org.uk/funding/programmes
- Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol: https://www.heritagefund.org.uk/funding/what-we-fund
- Mae'r Gynghrair Dreftadaeth a'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol yn rheoli'r Cyfeiriadur Ariannu Treftadaeth, sef canllaw am ddim i gymorth ariannol ar gyfer unrhyw un sy'n ymgymryd â phrosiectau treftadaeth yn y Deyrnas Unedig: https://www.heritagefundingdirectoryuk.org/

I ba arianwyr galla i wneud cais?

Beth yw blaenoriaethau pob ariannwr?

Sut mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau hyn?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Ystyriaethau Digolledu

Yma rydyn ni'n amlinellu cyfres o egwyddorion arweiniol a fframwaith ar gyfer ein hymagwedd at ddigolledu, sy'n adlewyrchu gwerthoedd, cenhadaeth a nodau Going Places.

Gwerthoedd sy'n sail i'r fframwaith digolledu:

- Cyfiawnder a thegwch
- Tryloywder
- Gwerthfawrogi pob math o arbenigedd
- Cynaliadwyedd

Gallai fod yn ddefnyddiol gofyn y cwestiynau canlynol i'ch hunan wrth gynllunio gweithgaredd ymgysylltu â'r gymuned a meddwl am ddigolledu cyfranogwyr:

- Pa **fath o ymgysylltiad** y bydd pobl yn cymryd rhan ynddo?
- Beth yw **pwrpas yr ymgysylltiad** sy'n digwydd?
- Pa rôl fydd gan gyfranogwyr?
- Beth sy'n eu **cymell i gymryd rhan**?
- Beth yw **lefel eu cyfranogiad**; a faint o amser, egni, llafur (cyfranogol ac emosiynol), ymrwymiad a chyfrifoldeb sydd ei angen gan y cyfranogwr?
- **Sut caiff y penderfyniadau eu rhannu**, ac i ba raddau y cânt eu rhannu?
- Beth yw **arbenigedd y cyfranogwyr** a sut fyddwch chi'n gwerthfawrogi ac yn parchu hyn yn llawn? Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn eich prosiect yn cynnig arbenigedd. Ystyriwch sut byddwch chi'n sicrhau eich bod yn deall yn llawn ehangder arbenigedd pobl a pha sgiliau a phrofiad y gallen nhw fod yn fodlon eu cynnig i'r prosiect? Er enghraifft, efallai y bydd gan gyfranogwr sgiliau dylunio nad ydych yn ymwybodol ohonyn nhw ond yr hoffen nhw eu defnyddio. Gallai archwiliad sgiliau a sgyrsiau gyda chyfranogwyr fod yn ddefnyddiol yma.
- Pa **fath o berthynas** sy'n cael ei datblygu?
- Pa **gyllideb ac adnoddau** sydd ar gael i chi?
- **Sut fyddwch chi'n gwneud hyn i gyd yn dryloyw i bawb sy'n cymryd rhan** (cyfranogwyr, staff a gwirfoddolwyr ar draws yr amgueddfeydd, hyd yn oed os nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith)?

Ystyriaethau Digolledu

Dyma restr o wahanol fathau o gydnabyddiaeth ariannol y gallech eu hystyried ar gyfer eich prosiect:

- Ffi neu gydnabyddiaeth (cyfwerth â'r Cyflog Byw o leiaf)
- Talebau
- Cynlluniau credyd (e.e. https://www.lancashire.gov.uk/jobs/volunteering/lancashire-time-credits/; https://www.cambridge.gov.uk/volunteer-your-time-and-earn-time-credits)
- Talu treuliau
- Darparu lluniaeth / per diem
- Llogi ystafell am ddim / am bris gostyngol
- Aelodaeth am ddim
- Mynediad am ddim i arddangosfeydd
- Sgyrsiau, teithiau, gweithdai, gweithgareddau a/neu ddigwyddiadau pwrpasol am ddim
- Parcio am ddim
- Raffl am gymryd rhan mewn arolwg
- Cynnig grantiau i bartneriaid cymunedol
- Hyfforddiant / Cyfnewid sgiliau / Profiad gwaith / Datblygu portffolio
- Prentisiaethau / Cyrsiau achrededig / Tystysgrif cyfranogiad / Geirda ar gyfer CV
- Cadw allbwn y cydweithrediad, gan gynnwys cael rhannu hawliau Eiddo Deallusol
- Rhannu awduraeth a pherchnogaeth a chredydau llawn

Nid yw'n benderfyniad clir bob amser pryd y dylid digolledu rhywun, a does dim un model sy'n addas i bawb.

Er enghraifft, gallai ymwelydd ag amgueddfa hefyd fod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd galw heibio, neu efallai y bydd gwirfoddolwr amgueddfa yn cefnogi gweithgaredd ymgysylltu – mewn achosion fel hyn ni fydden ni'n disgwyl digolledu ymwelwyr a gwirfoddolwyr â thâl, ond efallai y byddwn yn cynnig mathau eraill o ddigolledi ad, er enghraifft cynnig lluniaeth ac ad-dalu treuliau, fel sy'n berthnasol.

Mae angen i ni feddwl am ddigolledu cyfranogwr sy'n cymryd rhan mewn ymgynghoriad. Gall hwn fod yn daliad ariannol, ond gallai hefyd olygu cynnig talebau i gyfranogwyr, mynediad am ddim neu aelodaeth am ddim, ad-dalu treuliau, cynnig cymhellion ac ati. Os byddwch yn cynnig talebau neu daliad, rydyn ni'n awgrymu talu neu roi talebau gwerth mwy na'r Cyflog Byw fesul awr.

Mae'r angen i ddigolledu yn fwy eglur wrth gyflawni prosiectau cyd-greu. Mewn prosiectau mwy hirdymor a manylach, rydyn ni'n aml yn gweithio gydag eraill sy'n cael eu talu am eu hamser a'u harbenigedd. Er enghraifft, pan fyddwn yn talu artistiaid, mae'n bwysig talu cyfraddau rhesymol.

Gweler 'a-n/AIR Paying Artists Guide'; dogfen Cyngor Celfyddydau Lloegr Supporting Practitioners; a dogfen a-n 'Structurally F**cked: an inquiry into artists' pay and conditions in the public sector in response to the Artists Leaks data' am arweiniad pellach ar dalu artistiaid a gweithwyr llawrydd. O ystyried hyn, dylen ni ofyn i'n hunain pam nad ydyn ni'n talu ein cyd-grewyr a'n cydweithredwyr? Yn ddelfrydol, dylen ni gynnig ffi neu gydnabyddiaeth sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw neu fwy am eu hamser, eu harbenigedd a'u hymrwymiad.

Cadwch hyn i gyd mewn cof wrth benderfynu a ydych yn digolledu pobl, neu sut y byddwch yn gwneud hynny.

Ystyriaethau Digolledu

Pethau ychwanegol i'w hystyried:

- Lle bo'n bosib, dylid cynnwys **cydnabyddiaeth ariannol mewn cyllidebau** yn y camau cynllunio a dylid ystyried cynaliadwyedd.
- **Dylid trafod cydnabyddiaeth ariannol yn dryloyw ac ymlaen llaw** gyda chyfranogwyr.
- Byddwch yn ymwybodol o unrhyw **broblemau neu rwystrau posib**. Er enghraifft, gallai cyfranogwyr fod yn derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth a gallai unrhyw incwm ychwanegol effeithio ar hynny. Gallwch liniaru hyn drwy weithio gyda chyfranogwyr ymlaen llaw i ddeall beth sy'n ymarferol – efallai y byddwch am sicrhau bod y taliad yn cael ei osod ar lefel nad yw'n amharu ar eu budd-daliadau neu gynnig buddion anariannol yn lle hynny. Gallai rhwystrau eraill gynnwys y ffaith nad oes gan gyfranogwyr gyfrif banc neu gyfeiriad cofrestredig ar gyfer anfonebu.
- **Efallai na fydd taliadau'n berthnasol i rai partneriaid a chydweithredwyr**, er enghraifft ar gyfer ysgolion a sefydliadau addysg neu sefydliadau eraill lle mae'r gwaith yn dod o fewn eu cylch gwaith eu hunain.
- A yw prosesau caffael eich sefydliad yn cynnig ffyrdd o dalu cyfranogwyr cyd-greu – a allai gael eu hystyried yn 'gyflenwyr ansafonol' – yn hawdd a heb fiwrocratiaeth ddiangen?
- Os na, sut allech chi weithio gyda'ch cydweithwyr sy'n gyfrifol am gyllid a chaffael i sicrhau bod cyfranogwyr yn cael eu talu'n hawdd ac yn brydlon?
- Yn olaf, gair o rybudd. Fel gydag unrhyw weithgaredd ymgysylltu â'r gymuned, mae materion pŵer yn chwarae rhan gymhleth. Nid yw digolledu yn ddim gwahanol. Fel mae François Matarasso yn ysgrifennu yn ei flogiad Who gets paid – and why?: 'Mewn celfyddyd gyfranogol, pan fydd pobl efallai'n cyfrannu rhai o'r pethau mwyaf gwerthfawr sydd ganddyn nhw – eu straeon eu hunain – gall eu talu nhw eu dadrymuso nhw mewn gwirionedd. Gall cael tâl wneud i rywun golli rheolaeth dros eu cyfranogiad eu hunain neu hyd yn oed eu hatal rhag tynnu caniatâd yn ôl. Gall arian fod yn ffordd o ecsbloetio pobl hefyd.' Wedi dweud hynny, ni ddylid byth ddefnyddio hyn fel esgus i beidio â thalu pobl. Yn hytrach, mae angen cymryd amser a gofal i sefydlu eich prosiect a phenderfynu sut y dylid digolledu cyfranogwyr. Gallai fod yn ddefnyddiol ystyried cynyddu lefelau diogelu cyfranogwyr i sicrhau bod cyfranogwyr yn deall yn llawn yr hyn maen nhw'n cymryd rhan ynddo, eu bod yn rhoi eu caniatâd gwybodus i gymryd rhan, a'u bod yn deall y gallan nhw dynnu'n ôl ar unrhyw adeg a derbyn taliadau am unrhyw weithgarwch maen nhw wedi cymryd rhan ynddo hyd at y dyddiad hwnnw. Byddai memorandwm o gytundeb / contract cymunedol hygyrch rhwng yr amgueddfa a chyfranogwyr yn ddefnyddiol yma.

Fframwaith Digolledu

Datblygwyd y fframwaith digolledu a ganlyn ar gyfer prosiect Going Places mewn cydweithrediad â phartneriaid y prosiect. Mae wedi'i ddylunio i helpu amgueddfeydd i wneud penderfyniadau ynghylch digolledu cydweithredwyr, cyfranogwyr, gwirfoddolwyr ac arweinwyr/hwyluswyr. Gallech ddefnyddio'r fframwaith hwn i wneud penderfyniadau am ddigolledu mewn prosiectau eraill hefyd.

Diolch i Dana Andrews o'r Grŵp Arddangos Teithiol (TEG) am rannu gwaith MAGNET (Rhwydwaith Amgueddfeydd ac Orielau ar gyfer Rhannu Arddangosfeydd) yn y maes hwn.

Cyfranogwyr

- Digolledu am amser ac arbenigedd NEU gymhellion i gymryd rhan
- Ad-dalu treuliau am ymgynghoriad – ond nid ar gyfer gweithdy untro

Cydweithredwyr / Cyd-grewyr

- Ad-dalu treuliau
- Digolledu am amser ac arbenigedd

Gwirfoddolwyr

- Ad-dalu gwirfoddolwyr yn unol â pholisi gwirfoddolwyr eich sefydliad

Arweinwyr / Hwyluswyr

- Contract ffurfiol a disgwyliadau cyflawni
- Ad-dalu treuliau
- Taliad am amser ac arbenigedd

Pwy?	Beth?	Digolledaid
Cyfranogwyr <u>Cyd-greu neu Gyfranogiad</u> • Gallent fod yn rhan o sesiwn untro i gyfrannu at neu greu rhywbeth	Cyflwyno gweithgaredd sy'n galluogi pobl i gyfrannu tuag at ddarn sy'n cael ei gyd-greu, neu greu rhywbeth. Er enghraifft, gweithdy lle mae pawb yn creu un rhan o waith celf mawr; neu bod pob un yn creu print a fydd yn cael ei arddangos fel rhan o arddangosfa. Mae sefydliadau naill ai'n cyd-greu'r gwaith gyda chyfranogwyr; neu, os mai cyfrannu, mae sefydliadau yn cychwyn, yn arwain ac yn rheoli'r gwaith, gyda chyfranogwyr yn ymgysylltu'n weithredol ac yn cyfrannu at greu	Mae'n bosib y byddai'r digwyddiad am ddim i'w fynychu gyda deunyddiau a lluniaeth yn cael eu darparu.
Cyfranogwyr <u>Ymgynghori</u> • Gallent fod yn rhan o sesiwn ymgynghori untro, fel grŵp ffocws neu gyfweliad, i rannu eu barn a'u hadborth	Ceisio adborth, barn a safbwyntiau gan randdeiliaid – yn aml, aelodau'r gymuned – fel sail i benderfyniadau.	Digolledu am amser ac arbenigedd NEU gymhellion i gymryd rhan. Os digolledu am amser ac arbenigedd: • Ar gyfer sesiynau e.e. grwpiau ffocws, cyfweliadau: Tâl ariannol (fesul awr) – arian parod neu daleb • Ar gyfer arolwg: Gwobr raffl y gellir ei hennill gan un cyfranogwr e.e. cynnig taleb neu gymhelliant cyfatebol, fel taith y tu ôl i'r llenni neu barcio am ddim. Os yn darparu cymhellion ar gyfer cyfranogiad: • Cymhellion e.e. mynediad i amgueddfa / arddangosfa, llogi ystafell am ddim, ac ati. • Os yw'r digwyddiad yn un wyneb yn wyneb (e.e. cyfweliad neu grŵp ffocws): • Ad-dalu costau teithio, neu ddarparu digolledaid cyfatebol e.e. paned o goffi am ddim yn y caffi, parcio am ddim, ac ati.

Cydweithredwyr a chyd-grewyr <u>Cyd-greu neu gyfranogiad</u> • Gweithio gyda grŵp presennol sydd eisoes yn cael cyfarfodydd rheolaidd • Gweithio gyda grŵp ysgol neu goleg a fydd yn cael credydau ysgol / coleg am gymryd rhan	Gall hyn gynnwys cyd-berchnogaeth o brosiect, neu gallai gynnwys sesiynau untro, neu gydweithrediad mwy hirdymor gyda sefydliad partner, gyda chyfranogwyr gwahanol yn cymryd rhan ym mhob sesiwn.	Os yw'r grŵp yn cael credyd gan eu hysgolion / coleg am gymryd rhan, efallai na fydd yn briodol eu digolledu, ond talu am gostau teithio a darparu lluniaeth. Trafodwch gyda'r grŵp rydych chi'n gweithio gyda nhw i gytuno ar drefniadau.
Cydweithredwyr a chyd-grewyr <u>Cyd-greu cymunedo</u> • Unigolion sydd wedi'u cynnull gan yr amgueddfa	Cyd-berchnogaeth o brosiect (arddangosfa / arddangosiad / adnodd / digwyddiad ac ati) gyda'r gymuned (gall hyn fod yn unrhyw beth o un unigolyn hyd at grŵp cymunedol mawr / neu sefydliad lleol). Mae'r gymuned yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, ac, ochr yn ochr â'r amgueddfa, mae ganddi gyfrifoldeb am ganlyniadau'r prosiect. Mae sefydliadau'n rhoi cymorth i gydweithredwyr a chyd-grewyr.	Rhaid eu digolledu a thalu costau teithio. Mae hyn yn debygol o fod yn ddigolledion ariannol ond gallai hefyd gynnwys: • Mynediad i amgueddfa / arddangosfa ar gyfer cydweithredwyr a'u teuluoedd • Talebau • Costau gofal plant ar gyfer dod i sesiynau • Llogi ystafell am ddim neu am bris gostyngol • Aelodaeth amgueddfa am ddim • Digwyddiad(au) am ddim e.e. sgyrsiau, teithiau, gweithdai, gweithgareddau • Parcio am ddim • ac ati.

Cydweithredu â sefydliad Pob math o ymgysylltu â'r gymuned • Grŵp ffurfiol (e.e. Clwb Dynion Andy, clwb gwau, grŵp ysgol, grŵp ieuenctid)	Gallai'r grŵp fod, er enghraifft, yn cyd-greu arddangosfa, neu'n mynychu gweithdy cyfranogol i greu darn ar gyfer arddangosfa. Beth allwch chi ei gynnig i'r sefydliad? Efallai y byddwch yn digolledu sefydliad yn hytrach nag unigolion e.e. Clwb Dynion Andy, clwb gwau, ysgolion.	Wrth gydweithio â sefydliad, efallai y byddwch yn digolledu'r sefydliad yn hytrach na phob unigolyn. Trafodwch gyda'r sefydliad rydych chi'n gweithio gyda nhw i gytuno ar drefniadau. Ystyriwch beth gallwch chi ei gynnig i'r sefydliad. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, llogi ystafell am ddim, aelodaeth grŵp am ddim i'r amgueddfa, gweithdy am ddim, ac ati. Os yw'r grŵp yn cael credyd gan eu hysgolion / coleg am gymryd rhan, efallai na fydd yn briodol eu digolledu, heblaw am dalu am gostau teithio a darparu lluniaeth.
Gwirfoddolwyr Pob math o ymgysylltu â'r gymuned • Unigolion sy'n gwirfoddoli i'ch mudiad ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu / cyflwyno / gwerthuso gweithgareddau		Ad-dalwch gwirfoddolwyr yn unol â pholisi gwirfoddolwyr eich sefydliad. Gall hyn gynnwys cymhellion i gymryd rhan (e.e. lluniaeth) a / neu ad-dalu costau teithio.
Arweinwyr/Hwyluswyr Pob math o ymgysylltu â'r gymuned • Unigolion, gan gynnwys artistiaid a gweithwyr llawrydd, sydd wedi'u cyflogi i ddatblygu a/neu gyflwyno a/neu werthuso sesiynau ymgysylltu â'r gymuned		• Contract ffurfiol a disgwyliadau cyflawni • Ad-dalu treuliau (gall hyn gael ei gynnwys mewn ffi gyffredinol) • Talu am amser ac arbenigedd • Mae cyngor ar dalu ar gael yma: Paying Artists Exhibition Payment Guide a Dogfen Fair Pay Cyngor Celfyddydau Lloegr. Dylech sicrhau bod artistiaid a gweithwyr llawrydd yn cael digolledi ad teg am eu hamser, gan gynnwys unrhyw amser datblygu a gwerthuso.

Pwy sy'n cymryd rhan yn y prosiect?

Sut olwg fydd ar eu cyfranogiad?

Sut bydda i'n digolledu'r bobl sy'n cymryd rhan?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Dulliau o Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae 'ymgysylltu â'r gymuned' yn derm eang a all olygu nifer o bethau i bobl, sydd hefyd yn wir am enwau gwahanol ar fathau o ymgysylltu.

Gellir disgrifio dulliau o ymgysylltu â'r gymuned fel, er enghraifft, 'ymgynghori', 'cyd-greu', 'cyfranogiad', 'cydgynhyrchu', 'cyd-ddylunio', a 'lletya'. Mewn rhai achosion, mae amgueddfeydd yn defnyddio enwau gwahanol i ddisgrifio mathau tebyg iawn o ymgysylltu. Mae'r enwau hyn i gyd yn ddilys ac mae'n bwysig i chi ddeall a theimlo'n gyfforddus â'r disgrifiad(au) o ymgysylltu â'r gymuned a ddefnyddir gan eich amgueddfa.

Yn y broses o ddatblygu'r pecyn cymorth hwn, buon ni'n gweithio gydag amgueddfeydd partner i greu model o ymgysylltu â'r gymuned ar gyfer Going Places, a oedd yn diffinio termau ar gyfer gwahanol ddulliau o ymgysylltu â'r gymuned sy'n cael eu defnyddio ym mhrosiect Going Places. Ysbrydolwyd y model gan sbectrwm arfer celfyddydau perfformio cyfranogol Chrissie Tiller (2014). Roedd cytuno ar ddiffiniadau cyffredin ar gyfer y termau hyn yn bwysig i Going Places, gan ei fod yn golygu bod gan holl bartneriaid yr amgueddfa iaith gyffredin i'w defnyddio wrth gynllunio a siarad am eu prosiectau.

Gobeithio y byddan nhw'n ddefnyddiol i chi hefyd.

Y dulliau o ymgysylltu â'r gymuned sydd wedi'u cynnwys yn ein model yw:

- Ymgynghori
- Cyfranogiad
- Cyd-greu
- Lletya

Does dim un o'r dulliau yn y model yn fwy dilys na phwysig na'r llall; mae pob un yn cynnig ffyrdd defnyddiol o ddatblygu cysylltiadau â chymunedau a chefnogi cymunedau i gymryd rhan mewn amgueddfeydd. Wrth ddatblygu eich prosiect, dewiswch y dull sy'n gweithio orau i'ch sefydliad a'ch cymunedau.



Capsiwn delwedd: Gweithdy Ysgolion © Chris Payne

	Ymgynghori	Cyfranogiad	Cyd-greu	Lletya
	Sefydliadau diwylliannol a threftadaeth yn ceisio adborth, barn a safbwyntiau gan randdeiliaid, sef cymunedau lleol yn aml	Sefydliadau diwylliannol a threftadaeth yn ceisio adborth, barn a safbwyntiau gan randdeiliaid, sef cymunedau lleol yn aml	Caiff cyfrifoldeb, penderfyniadau a pherchnogaeth dros y gwaith eu rhannu rhwng cydweithredwyr a sefydliadau diwylliannol a threftadaeth. Mae sefydliadau yn rhoi cymorth, offer ac adnoddau i gydweithredwyr i gyd-arwain y gwaith a chyflawni eu nodau cyffredin	Sefydliadau diwylliannol a threftadaeth yn cynnig rhai o'u cyfleusterau a/neu adnoddau i randdeiliaid fel y gallan nhw ddefnyddio'r amgueddfa i ddiwallu eu hanghenion a'u dymuniadau eu hunain
PWY sy'n cymryd rhan?	Hwylusir gan ymgynghorwyr allanol neu staff mewnol gydag ystod o randdeiliaid. Gallai'r rhain gynnwys: cynulleidfaoedd presennol, cynulleidfaoedd targed, grwpiau cymunedol, grwpiau addysg ffurfiol ac anffurfiol a phartneriaid	Staff a chyfranogwyr. Partneriaid a sefydliadau eraill	Staff a chydweithredwyr. Partneriaid a sefydliadau eraill	Rhanddeiliaid a staff pan ofynnir amdanynt. Partneriaid a sefydliadau eraill
SUT mae'r arfer yn digwydd?	Sefydliadau sy'n gosod y paramedrau a gallent dargedu / gwahodd rhanddeiliaid penodol neu'r cyhoedd i gymryd rhan mewn ymgynghoriad. Gallech feddwl am fynd at ystod gymysg ac amrywiol o bobl. Gallai cymunedau optio i mewn neu fynychu'n achlysurol gyda'r bwriad penodol o gymryd rhan	Sefydliadau sy'n rheoli cynlluniau, prosesau ac allbynnau. Gallai cyfranogwyr optio i mewn neu fynychu'n achlysurol gyda'r bwriad penodol o gymryd rhan	Proses gwbl gydweithredol, lle mae nodau ac arddulliau gweithio cydweithredwyr yr un mor bwysig â rhai'r sefydliad Cyd-berchnogaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd, gyda gwerth cyfartal yn cael ei roi i gyfraniadau cydweithredwyr	Proses gwbl gydweithredol, lle mae nodau ac arddulliau gweithio cydweithredwyr yr un mor bwysig â rhai'r sefydliad Cyd-berchnogaeth a gwneud penderfyniadau ar y cyd, gyda gwerth cyfartal yn cael ei roi i gyfraniadau cydweithredwyr

SUT ydyn ni'n rhannu pŵer?	Nid yw pŵer yn cael ei rannu yn y model ymgynghori, ond mae mewnbwn cymunedol yn cael ei werthfawrogi	Mae staff yn rheoli'r prosesau a'r canlyniadau terfynol, ond rhennir rhywfaint o benderfyniadau gyda chymunedau	Mae cyd-greu llwyr yn ymwneud â herio'r ddeinameg bŵer arferol ac anelu at berthnasoedd teg sydd o fudd i'r ddwy ochr	Cyfranogwyr sy'n rheoli'r gwaith, gan sicrhau eu bod yn cadw at reolau'r sefydliad
BETH sy'n digwydd?	Grwpiau ffocws, gweithdai, 'vox pops', arolygon, ac ymgynghori creadigol e.e. i brofi, adolygu, cryfhau a siapio cynnwys, rhaglennu a strategaethau	Gweithdai untro neu achlysurol, sesiynau gweithgaredd, cyfarfodydd e.e. cefnogi'r gwaith o greu cynnwys	Cyfarfodydd rheolaidd, cynllunio a recriwtio, gweithdai, sesiynau gweithgaredd, sesiynau adrodd yn ôl a gwerthuso. Mae sgiliau ac arbenigedd wedi'u rhannu rhwng cydweithredwyr a sefydliadau	Rhanddeiliaid yn arwain ar weithgareddau gydag ychydig iawn o gyfranogiad gan sefydliadau

PAM?	Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghenion a dymuniadau rhanddeiliaid mewn perthynas â'ch sefydliad, i archwilio cyfleoedd a rhwystrau rhag ymweld, i gydgynhyrchu syniadau newydd, a/ neu i fwydo i brosesau gwneud penderfyniadau. Er mwyn ysgogi newid sefydliadol. Er mwyn datblygu cynulleidfaoedd, cysylltiadau ac ymdeimlad o berchnogaeth gymunedol. Er mwyn anrhydeddu cyfraniadau rhanddeiliaid.	Er mwyn datblygu cysylltiadau, cynulleidfaoedd a phartneriaid. Er mwyn datblygu sgiliau a chreadigedd y cyfranogwyr a'r sefydliad, a gwella gwybodaeth ac arbenigedd. Er mwyn gwella iechyd a llesiant, a chefnogi newid cadarnhaol mewn agweddau ac ymddygiad. Er mwyn cefnogi newid sefydliadol. Er mwyn gwerthfawrogi cyfraniadau cyfranogwyr.	Er mwyn cynhyrchu arfer mwy cynhwysol a hygyrch sydd o fudd i amgueddfeydd a chydweithredwyr. Er mwyn datblygu, adeiladu a chynnal cysylltiadau ystyrlon gyda chydweithredwyr ac ehangu cynulleidfaoedd a phartneriaid. Er mwyn rhannu arbenigedd, sgiliau a datblygu gweledigaeth gyffredin ac ymdeimlad o berchnogaeth. Er mwyn gwella creadigrwydd a gwybodaeth, gwella iechyd a llesiant, a chefnogi newid cadarnhaol mewn agweddau ac ymddygiad. Er mwyn gwella a dyfnhau gwybodaeth a dealltwriaeth o sefydliadau (a'u safleoedd, eu casgliadau a'u straeon) a llywio newid sefydliadol. Er mwyn gwerthfawrogi a pharchu cyfraniadau cydweithredwyr yn llawn	Er mwyn meithrin cysylltiadau a datblygu ymdeimlad o berchnogaeth gymunedol o sefydliadau. Er mwyn cefnogi newid sefydliadol. Er mwyn gwerthfawrogi cyfraniadau a gallu rhanddeiliaid yn llawn. Er mwyn rhannu asedau gyda chymunedau lle nad oes adnoddau dinesig

BLE?	Gall ddigwydd yn yr amgueddfa neu oddi ar y safle	Yn aml yn digwydd yn yr amgueddfa a/neu mewn lleoliadau cymunedol	Yn aml yn digwydd yn yr amgueddfa a/neu mewn lleoliadau cymunedol	Yn aml yn digwydd yn yr amgueddfa
PRYD?	Fel arfer yn gyfarfod untro	Fel arfer yn gyfarfod untro	Dros gyfnod o amser. Gall hyn fod yn gyfnod hir, yn dibynnu ar y prosiect	Gall fod yn gyfarfod untro neu'n gyfres o weithgarwch rheolaidd



Ymwelwyr yn edrych ar oriel Casgliad Napoli yn Compton Verney © Zeinab Batchelor/Art Fund 2024

Ymgysylltu â'r Gymuned yn eich Ffordd Chi

Does dim hierarchaeth pan ddaw at ymgynghori, cyfranogiad, cyd-greu, neu letya.

Mae pob dull yn ddilys ac yn werthfawr, ac yn eich galluogi i ddatblygu cysylltiadau gyda chymunedau a chynnwys lleisiau cymunedol wrth ddylunio cynnwys a gwasanaethau newydd. Yn dibynnu ar faint o amser ac adnoddau sydd gennych chi, a'r gynulleidfa neu'r cynulleidfaoedd rydych yn ceisio ymgysylltu â nhw, gallech benderfynu dewis un dull, neu efallai y byddwch am gyflwyno cyfuniad o ddulliau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.

Pa bynnag ddull y byddwch yn ei ddewis, does dim un ffordd 'gywir' o ymgysylltu â'r gymuned. Er enghraifft, nid oes rhaid i brosiect cyd-greu olygu cwrdd â grŵp bob wythnos am flwyddyn; gall olygu cyflwyno nifer llai o weithdai dros gyfnod byrrach o amser. Mae'n bwysig iawn ystyried eich capasiti a'r adnoddau sydd ar gael i chi a pheidio â rhoi eich hunan o dan ormod o bwysau. Ni ddylai gwaith ymgysylltu â'r gymuned arwain at staff yn gorweithio ac yn chwythu'u plwc. Cynlluniwch ddull gweithredu sy'n gweithio i'ch sefydliad ac sy'n bodloni eich amcanion allweddol.

Er mwyn helpu i gynllunio'ch prosiect ymgysylltu â'r gymuned, ystyriwch yr atebion i'r cwestiynau hyn:

- **Faint o amser sydd ar gael?** Gall gwaith ymgynghori, er enghraifft, gymryd llai o amser na chyd-greu. Os oes gennych ddiffyg capasiti ond eich bod am gyflawni prosiect cyd-greu oherwydd bod hyn yn gweddu i'r gwaith rydych yn ei wneud, meddyliwch am sut gallwch greu prosiect sy'n cyfateb i'ch capasiti. Yn yr un modd, gwnewch yn siŵr bod eich prosiect yn cyfateb â chapasiti'r unigolion neu'r grwpiau rydych yn gweithio gyda nhw.
- Faint o **gapasiti staff a gwirfoddolwyr** sydd ar gael ar gyfer y prosiect hwn? Sut mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â chyfrifoldebau gwaith eraill pobl?
- Pa **gyllideb** sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn?
- **Pwy yw'r gynulleidfa/cynulleidfaoedd rydych chi am ymgysylltu â nhw?** Pa ddull(iau) fyddai orau ganddyn nhw? Os nad ydych yn siŵr pa ddulliau i'w defnyddio, trafodwch gyda'r cymunedau rydych yn ceisio ymgysylltu â nhw i ddylunio dull gweithredu sy'n gweithio i bawb.
- **Sut beth fydd 'llwyddiant' ar gyfer eich prosiect?** Nid yw llwyddiant yn ymwneud â faint o oriau rydych chi wedi gweithio ar y prosiect; mae'n ymwneud â'r effaith/effeithiau mae'r gwaith yn ei chael neu eu cael ar gymunedau a'ch amgueddfa. Beth sydd angen i chi ei wneud i gyrraedd y canlyniadau rydych am eu cyrraedd?

Dulliau

Yn yr adran hon, gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am bob dull sy'n ymddangos ym model ymgysylltu â'r gymuned Going Places.



Capsiwn delwedd: Amgueddfeydd Northumberland, Ymgysylltu Digidol, Ymateb ac Ail-ddychmygu
© Trwy garedigrwydd Amgueddfeydd Northumberland

Ymgynghori

Beth yw ymgynghori?

Ystyr ymgynghori yw pan fydd sefydliadau'n ceisio adborth, safbwyntiau a barn gan bobl i helpu i brofi, adolygu, cryfhau, a siapio e.e. cynnwys, rhaglenni, strategaethau, a gwasanaethau. Gallai hyn gynnwys casglu barn gan gynulleidfaoedd presennol, cynulleidfaoedd targed, grwpiau cymunedol, grwpiau addysg ffurfiol ac anffurfiol, a phartneriaid.

Gwerthoedd: gwrando, cydweithredu, creadigrwydd, tryloywder, gwerthfawrogi pob math o arbenigedd, gofal a thosturi, parch, gonestrwydd, hwyl.

Egwyddorion

Cynhelir ymgynghoriad ar gyfer aelodau'r gymuned a phartneriaid, a phroses un ffordd yw'r dysgu yn bennaf, gyda staff yn gosod naws a pharamedrau'r ymgysylltu.

Gall sefydliadau wahodd aelodau o'r gymuned neu randdeiliaid penodol i gymryd rhan neu wneud galwad agored i recriwtio aelodau o'r cynulleidfaoedd / cymunedau dymunol.

Gallai sefydliadau benderfynu ymgynghori â chymuned benodol neu gymunedau amrywiol, yn dibynnu ar amcanion yr ymgynghoriad. Gallai ymgyngoreion optio i mewn yn achlysurol (e.e. cymryd rhan mewn arolwg yn ystod ymweliad ag amgueddfa) neu fynd i sesiwn ymgynghori gyda'r bwriad penodol i gymryd rhan (e.e. cofrestru ar gyfer grŵp ffocws a mynd iddo).

Mae ymgynghori yn aml yn ddigwyddiad untro; er enghraifft, grŵp ffocws, gweithdy, arolwg, sesiwn greadigol, neu 'vox pop'.

Gallai sefydliadau benderfynu cynnwys nifer o ddulliau ymgynghori mewn prosiect i gasglu ystod ehangach o farn a safbwyntiau. Gallai sesiynau ymgynghori ddigwydd yn y sefydliad neu oddi ar y safle mewn lleoliad cymunedol. Gall staff neu ymgynghorwyr allanol hwyluso sesiynau.

Gall ymgyngoreion elwa ar gael ymdeimlad dyfnach o berthyn a pherchnogaeth, ymdeimlad o fwynhad ar ôl cymryd rhan mewn sesiwn hwyliog a diddorol, a balchder o weld syniadau maen nhw'n eu cynhyrchu mewn sesiwn yn cael eu gweithredu.

Gall gwaith ymgynghori helpu sefydliadau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd a datblygu cynulleidfaoedd newydd, cael gwell dealltwriaeth o anghenion a dymuniadau cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid, ac aros yn berthnasol i gynulleidfaoedd.



Capsiwn delwedd: Gweithdy Cynulliad Celf, Gerddi Piccadilly, Manceinion © David Oates/Art Fund 2022

Ymgynghori

Gallai gwaith ymgynghori edrych fel...

- Grŵp ffocws gyda phobl ifanc i siapio cynnwys arddangosfa neu raglen.
- Arolwg ar-lein i gymunedau lleol er mwyn archwilio eu canfyddiadau a'u hymwybyddiaeth o amgueddfa.
- Sesiwn greadigol i deuluoedd gyda gweithgareddau creadigol (e.e. ysgrifennu creadigol, lluniadu, modelu â chlai) sy'n archwilio eu syniadau ar gyfer oriel neu raglen deuluol newydd.
- Rhannu syniadau ar gyfer dyluniad oriel newydd mewn gofod yn eich amgueddfa a/neu leoliad cymunedol a gwahodd pobl i rannu sylwadau.

Cyngor ar Ymgynghori

- Paratowch **gwestiynau ymchwi**l a fydd yn eich galluogi i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi. Beth sydd angen i chi ei wybod a pham? Pa gwestiynau fydd yn eich helpu i gasglu'r wybodaeth honno?
- **Peidiwch â gofyn cwestiynau arweiniol**. Er enghraifft, gofynnwch 'Beth yw eich barn am yr amgueddfa', yn hytrach na, 'Pam ydych chi'n caru'r amgueddfa?'.
- Ystyriwch a oes angen i chi ofyn **cwestiynau caeedig neu agored**, neu gymysgedd o'r ddau. Dim ond atebion penodol sydd i gwestiynau caeedig, tra bydd cwestiynau agored – fel cwestiynau 'pam' a 'sut' – yn eich galluogi i archwilio barn y gynulleidfa'n fanylach.
- Mae yna **lawer o ffyrdd y gallwch chi ymgynghori â chymunedau**. Mae'r rhain yn cynnwys grwpiau ffocws, arolygon wyneb yn wyneb ac ar-lein, cyfweliadau, 'vox pops', gweithdai, a thechnegau creadigol (e.e. ffotograffiaeth, lluniadu, ysgrifennu creadigol). Cynlluniwch ddull ymgynghori sy'n addas ar gyfer y gymuned/cymunedau rydych chi'n ymgynghori â nhw. Mae'r pecynnau cymorth hyn gan SHARE Museums East a Neighbourhood Planning yn cynnwys syniadau ar gyfer gwahanol ddulliau ymgynghori.
- Cyflwynwch sesiynau ymgynghori ar **ddiwrnodau ac amseroedd** sy'n addas i'r gymuned/cymunedau rydych chi'n gweithio gyda nhw.
- **Rhannwch amserlenni mewn da bryd** i alluogi pobl i baratoi ar gyfer y sesiwn. Os ydych chi'n gofyn i bobl ddod i sesiwn wyneb yn wyneb, cofiwch rannu cyfarwyddiadau clir am y lleoliad e.e. sut i gyrraedd, ble i barcio, trafnidiaeth gyhoeddus, hygyrchedd, ac ati.
- **Gwnewch yn siŵr bod ymgyngoreion yn deall beth yw pwrpas y prosiect a'u bod wedi cydsynio i gymryd rhan** yn yr ymchwil. Gallwch ddod o hyd i enghreifftiau o ffurflenni cydsynio ar gyfer grwpiau ffocws ar-lein.



Capsiwn delwedd: Gweithdy Cynulliad Celf, Gerddi Piccadilly, Manceinion © David Oates/Art Fund 2022

Cyfranogiad

Beth yw cyfranogiad?

Math o ymgysylltu â'r gymuned yw cyfranogiad lle mae cyfranogwyr cymunedol yn cymryd rhan yn y gwaith o greu a rhannu cynnwys, ac sy'n eu cefnogi i gysylltu â'i gilydd – er enghraifft creu cynnwys ar gyfer arddangosfeydd neu arddangosiadau, neu fathau eraill o weithgarwch. Elfen hanfodol o gyfranogiad yw **ymgysylltiad a chyfranogiad gweithredol** y cyfranogwyr, boed hynny drwy optio i mewn i weithgareddau yn achlysurol (e.e. cymryd rhan mewn gweithdy galw heibio mewn amgueddfa) neu ddod gyda'r bwriad penodol i gymryd rhan. Heb eu cyfraniadau, ni fyddai'r gwaith yn bodoli yn ei ffurf lawn. Er bod cynnwys cyfranogwyr yn hollbwysig, a bod rhywfaint o'r gwaith o wneud penderfyniadau yn cael ei rannu, y sefydliad sy'n cychwyn ac yn cyfarwyddo'r gwaith – ac yn rheoli'r cynlluniau, y prosesau a'r allbynnau.

Gwerthoedd: cydweithredu, creadigrwydd, gwerthfawrogi pob math o arbenigedd, gofal a thosturi, parch, gonestrwydd, hwyl, datblygu ymdeimlad o gyflawniad.

Egwyddorion

Yn yr un modd ag ymgynghori, cynhelir ymgynghoriad ar gyfer aelodau'r gymuned a phartneriaid, a phroses un ffordd yw'r dysgu yn bennaf, gyda staff yn gosod naws a pharamedrau'r ymgysylltu.

Gallai gwaith cyfranogol olygu cymunedau yn cael cyfarfod untro â sefydliad diwylliannol neu dreftadaeth neu gymryd rhan mewn gweithdai a gynhelir dros gyfnod o amser. Gallai hyn ddigwydd yn yr amgueddfa neu oddi ar y safle mewn lleoliad cymunedol – er enghraifft, canolfan gymunedol neu ysgol.

Gall cyfranogiad fod ag ystod eang o fuddion i aelodau unigol o'r gymuned, gan gynnwys – dysgu sgiliau a gwybodaeth newydd, gwella creadigrwydd a llesiant, magu hyder drwy'r ffaith bod eu cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi, cyfleoedd cymdeithasol newydd, ac ehangu gorwelion.

Yn yr un modd, gall cyfranogiad fod o fudd i sefydliadau mewn sawl ffordd – er enghraifft, gall cyfleoedd i gymryd rhan adeiladu cynulleidfaoedd newydd, denu mwy o ymweliadau ailadroddus, a bod yn fan cychwyn ar gyfer datblygu perthynas fwy ystyrlon â phartneriaid cymunedol. Gallai'r wybodaeth a ddysgir o'r gwaith ymgysylltu ddylanwadu ar y penderfyniadau mae sefydliad yn eu gwneud a gall fod yn rhan o broses sy'n cefnogi sefydliadau i ddod yn fwy perthnasol ac ymatebol i anghenion a dymuniadau'r gymuned.



Capsiwn delwedd: Ymwelwyr yn y caffi yn Compton Verney © Zeinab Batchelor/Art Fund 2024

Cyfranogiad

Gallai cyfranogiad edrych fel...

- Disgyblion o ysgolion lleol yn creu gwaith (e.e. celf, ffotograffiaeth, ysgrifennu) sy'n cael ei arddangos mewn amgueddfa.
- Gweithdy o dan arweiniad artistiaid lle mae'r cyfranogwyr yn creu gwaith celf sy'n cael ei arddangos yn yr amgueddfa. Gallai hyn, er enghraifft, olygu cyfranogwyr yn creu eu darn unigol eu hunain neu'n cydweithio i greu gwaith celf cydweithredol.
- Ymwelwyr yn cael cyfle i arddangos detholiad o weithiau celf.
- Gweler astudiaeth achos Edinburgh Printmakers am fwy o ysbrydoliaeth.
- Cystadleuaeth ffotograffiaeth i'r gymuned lle mae cynigion y gystadleuaeth yn cael eu harddangos mewn amgueddfa.

Cyngor ar Gyfranogiad

- Penderfynwch **sut bydd cyfranogwyr yn cymryd rhan yn y prosiect**. Beth fydd gofyn iddyn nhw ei greu neu gyfrannu ato? Beth yw pwrpas y cyfranogiad a beth fydd yr allbynnau? A fydd gwahanol gynulleidfaoedd/cymunedau yn cymryd rhan mewn gwahanol ffyrdd?
- **Dylech deilwra gweithgareddau ar gyfer y gymuned/cymunedau rydych chi'n gweithio gyda nhw**. Pa fath o weithgareddau fyddan nhw'n eu mwynhau? Pa weithgareddau fydd yn eu hannog i ymgysylltu a chyfranogi?
- Os yw cyfranogwyr yn creu rhywbeth, **penderfynwch beth fydd yn digwydd i'r allbynnau hyn** yn y tymor byr a'r hirdymor? A fyddan nhw'n cael eu derbyn i'r casgliad? A fyddan nhw'n cael eu rhoi yn ôl i gyfranogwyr? A fyddan nhw'n cael eu harddangos yn yr hirdymor yn yr amgueddfa neu ar-lein?
- Ystyriwch **a ydych am recriwtio hwylusydd allanol neu ymarferydd creadigol** i arwain neu gefnogi'r gwaith. Er enghraifft, gallech recriwtio artist i arwain gweithdai lle mae cyfranogwyr yn creu gwaith celf ar gyfer arddangosfa.



Capsiwn delwedd: Ymwelwyr yn y siop yn Compton Verney © Zeinab Batchelor/Art Fund 2024

Cyfranogiad

Astudiaeth Achos: Edinburgh Printmakers: Castle Mills Then & Now: Whose Gallery is it Anyway?

Enghraifft wych o gyfranogiad ar waith yw arddangosfa a digwyddiad 'Castle Mills Then & Now: Whose Gallery is it Anyway?' yn Edinburgh Printmakers.

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024, agorodd yr oriel ei gofod i'r cyhoedd, gan eu gwahodd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau creadigol a churadurol. Roedd modd i gyfranogwyr ddod â'u gwaith celf eu hunain i mewn neu greu eu gwaith celf eu hunain ar y safle (gan ddefnyddio unrhyw ffurf neu gyfrwng, fel paentio, gwneud printiau, tecstilau, lluniadu, cerflunwaith a pherfformiad), a gallent osod eu gwaith yn y brif oriel a thynnu darnau eraill o waith os oedden nhw'n dymuno gwneud hynny. Maen nhw'n disgrifio hyn fel profiad ac arddangosfa ryngweithiol wyneb yn wyneb mewn amser real sy'n annog y cyhoedd i addasu'r arddangosfa'n barhaus, gan nad yw byth yn aros yn union yr un fath. Mae'n annog pobl i fyfyrio ar wneud printiau a'r celfyddydau gweledol sy'n mynd y tu hwnt i ddetholiad un curadur (Edinburgh Printmakers 2024). I gyd-fynd â'r arddangosfa roedd rhaglen gyhoeddus o sgyrsiau a gweithgareddau ar gyfer grwpiau cymunedol ac ysgolion. Mae rhagor o wybodaeth am yr arddangosfa a'r digwyddiad yma.



Capsiwn delwedd: Ymwelydd yn hongian darn o waith yn yr oriel, sy'n rhan o arddangosfa 'Whose Gallery is it Anyway?' Llun drwy garedigrwydd Edinburgh Printmakers. Llun: © Alan Dimmick

Cyd-greu

Beth yw cyd-greu?

Math o ymgysylltu â'r gymuned yw cyd-greu lle mae cyfranogwyr cymunedol mewn proses gwbl gydweithredol, gyda'r broses o greu a rhannu cynnwys yn cael ei hadeiladu o'r gwaelod i fyny – er enghraifft, cynnwys ar gyfer arddangosfeydd, arddangosiadau, digwyddiadau, casgliadau, neu fathau eraill o weithgarwch.

Elfen hanfodol o gyd-greu yw **rhannu arbenigedd, sgiliau a phrofiadau bywyd, a datblygu gweledigaeth gyffredin ac ymdeimlad o berchnogaeth**. Mae cyd-greu yn herio deinameg pŵer draddodiadol ac yn anelu at greu cydberthnasoedd teg. Mae cynnwys cyfranogwyr o'r cychwyn yn hanfodol gan fod cyfrifoldeb, penderfyniadau a pherchnogaeth dros y gwaith yn cael eu rhannu rhwng cydweithredwyr a sefydliadau diwylliannol a threftadaeth.

Gwerthoedd: cydweithredu, creadigrwydd, dwyochredd, gonestrwydd a thryloywder, parch, cydraddoldeb lle mae arbenigedd o bob math yn cael ei werthfawrogi, cyfrifoldeb, gofal a thosturi, cyfiawnder cymdeithasol, datblygu ymdeimlad o berthyn.

Egwyddorion

Mae cyd-greu yn digwydd **gydag** aelodau o'r gymuned a phartneriaid, ac mae'r broses ddysgu yn un ddwy ffordd, gyda chyfranogwyr a staff yn gosod naws a pharamedrau'r ymgysylltu ar y cyd. Mae amgueddfeydd yn gweithio gydag aelodau o'r gymuned i gynhyrchu, er enghraifft, arddangosfeydd ac arddangosiadau, rhaglenni, canllawiau sain, podlediadau, labeli gwrthrychau, adnoddau ysgolion ac adnoddau dysgu eraill, gwefannau, digwyddiadau, nwyddau manwerthu, ac ati.

Mae gwaith cyd-greu fel arfer yn golygu bod cymunedau'n cael cyfarfodydd neu weithdai gyda sefydliad diwylliannol neu dreftadaeth dros gyfnod o amser. Yn ddelfrydol, dylai pa mor aml mae cyfarfodydd/gweithdai yn cael eu cynnal, a hyd y prosiect, gael eu cynllunio ar y cyd ag aelodau o'r gymuned a dylen nhw gyd-fynd â'r capasiti a'r adnoddau sydd ar gael i bawb. Mae cyd-greu yn aml yn digwydd yn yr amgueddfa neu oddi ar y safle mewn lleoliadau cymunedol.

Gall cyd-greu gynnig ystod eang o fanteision i aelodau unigol o'r gymuned a chymunedau'n ehangach, gan gynnwys – datblygu dealltwriaeth newydd, dysgu sgiliau a gwybodaeth newydd, gwella creadigrwydd a llesiant, meithrin hyder, cyfleoedd cymdeithasol a chyflogaeth newydd, herio syniadau rhagdybiedig, ehangu gorwelion, creu cysylltiadau cryfach â'r sefydliad, newid canfyddiadau o'r gymuned a'u lle ynddi, cefnogi cymunedau yn eu gwaith hunan-rymuso, a datblygu eu gallu.

Gall amgueddfeydd gael budd o gyd-greu mewn sawl ffordd. Mae cyd-greu yn darparu cyfleoedd ar gyfer cynnig ffyrdd democrataidd o weithio a gall adeiladu cynulleidfaoedd newydd a chynyddu apêl amgueddfa i gymunedau nad oedden nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol o'r blaen neu gymunedau lleiafrifiedig. Gall cyd-grewyr sydd â phrofiadau bywyd penodol i'w cynnig i'r prosiect lywio a siapio'r penderfyniadau mae amgueddfa'n eu gwneud, gan helpu i drawsnewid eu meddwl a'u harfer.

Cyd-greu

Gallai cyd-greu edrych fel...

- Gweithio ar y cyd â grŵp cymunedol i ddatblygu a chreu arddangosfa newydd.
- Cydweithio â myfyrwyr celf neu ddylunio cynnyrch lleol i greu cynhyrchion newydd ar gyfer siop yr amgueddfa.
- Cydweithio gydag athrawon i gynhyrchu adnoddau ysgolion newydd.
- Gweithio gyda phobl ifanc i ddefnyddio casgliadau'r amgueddfa i ddatblygu taith, gêm neu brofiad newydd.
- Gweithio gyda theuluoedd lleol i greu rhaglen deuluol newydd.

Cyngor ar Gyd-greu

- Gweithiwch gyda chyd-grewyr i **ddatblygu nodau ar y cyd ar gyfer y prosiect a phenderfynu ar ffyrdd o weithio ar y cyd**.
- **Dylech adael digon o amser i ddatblygu a chyflawni eich prosiect**. Datblygwch amserlenni realistig sy'n cynnwys amser ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd a gweithio iteraidd.
- Cymerwch amser i **feithrin ymddiriedaeth a chydberthynas** a datblygwch gontract/cod ymddygiad a rennir y mae'r amgueddfa a'r cyd-grewyr yn cadw ato.
- Neilltuwch amser ar gyfer **adolygu a myfyrio** drwy gydol y prosiect.
- Dylech greu **amgylchedd seicolegol ddiogel** lle mae pawb yn gwybod ei bod hi'n iawn cymryd risgiau, mynegi syniadau neu bryderon, gofyn cwestiynau, a chyfaddef camgymeriadau heb ofni canlyniadau negyddol. Gellir datblygu diogelwch seicolegol drwy gydweithio i sefydlu disgwyliadau clir, annog cyfathrebu agored, gwrando gweithredol, gwneud yn siŵr bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a dangos gwerthfawrogiad agored pan fydd pobl yn siarad.
- Ystyriwch sut y gall staff **gefnogi cyd-grewyr i ddysgu sgiliau newydd neu ddatblygu gwybodaeth** y gallen nhw ei defnyddio yn ystod y prosiect (e.e. ysgrifennu testun, gwaith ymchwil, ac ati). Yn yr un modd, ystyriwch **sut y gellir cefnogi cyd-grewyr yn llawn i rannu eu sgiliau a'u profiadau** gyda staff a'i gilydd.
- Penderfynwch a fydd **hawlfraint** yn cael ei rhannu â chyd-grewyr, a sut.
- Cofiwch, does dim gofyniad i gwrdd â chyd-grewyr nifer penodol o weithiau nac yn rheolaidd iawn (hynny yw, yn wythnosol). **Ystyriwch beth yw eich capasiti a chapasiti eich cydweithwyr**; peidiwch â chynllunio amserlen prosiect sydd mewn perygl o achosi i bobl chwythu'u plwc. Yn yr un modd, **ystyriwch gapasiti'r cyd-grewyr** – faint o amser sydd ganddyn nhw i'w roi i brosiectau a phryd maen nhw ar gael? Dylech ddylunio'r broses gyd-greu gyda'r cyd-grewyr er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn gweithio i bawb.
- Os ydych chi'n gweithio gyda **dylunwyr allanol**, gwnewch yn glir mai prosiect cyd-greu yw hwn ac y bydd cyd-grewyr (o bosib) yn cymryd rhan yn y gwaith o wneud penderfyniadau am ddylunio. Os oes angen i ddylunwyr fynychu sesiynau cyd-greu, dylech gynnwys hyn yn y briff dylunio a chynnwys digon o gyllideb i ganiatáu ar gyfer yr amser hwn. Gadewch ddigon o amser i ddylunwyr weithio'n iteraidd mewn ymateb i benderfyniadau a wneir gan gyd-grewyr.
- Ystyriwch a fydd eich **perthynas waith gyda chyd-grewyr yn parhau ar ôl i'r prosiect ddod i ben**. Os felly, sut olwg fydd ar hyn? Os na, sut byddwch chi'n dod â'r berthynas i ben mewn ffordd dda?

Cyd-greu

Astudiaeth Achos: Yr Amgueddfa Greu ym Melin Sidan Derby

Mae'r Amgueddfa Greu ym Melin Sidan Derby yn adrodd hanes y ddinas o greu ac arloesi dros 300 mlynedd. Cafodd ei datblygu i fod yn lle o falchder cyhoeddus, ac fe'i crëwyd mewn cydweithrediad â chymunedau Derby.

Mae gan yr Amgueddfa Greu ethos o gydgynhyrchu a chydweithredu. Mae dros 1,500 o bobl wedi bod yn rhan o'i datblygiad, gan gynnwys gweithio gyda dylunwyr a phenseiri, cyflawni gwaith ymchwil, a chefnogi digwyddiadau. Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect a'i effeithiau ar gael yma.



Capsiwn delwedd: Sesiwn creu syniadau prosiect Melin Sidan, 2017 Llun drwy garedigrwydd Amgueddfeydd Derby Llun: © Ffotograffiaeth Chris Seddon

Lletya

Beth yw ymgysylltiad lletya?

Prosiectau lletya yw pan fydd yr amgueddfa yn **trosglwyddo rheolaeth bron yn llwyr i gymunedau**, grwpiau neu bartneriaid drwy **gynnig** defnydd o'i **chyfleusterau, gofodau, offer** a/neu adnoddau ac, ar rai achlysuron, darparu arweiniad a chefnogaeth arbenigol hefyd. Mae'r dull hwn yn caniatáu i gyfranogwyr ddefnyddio'r sefydliad i fodloni eu hanghenion a'u dymuniadau eu hunain a gallai gynnwys – er enghraifft, grŵp cymunedol yn defnyddio un o ofodau'r sefydliad am ddim i gynnal cyfarfod. Enghraifft arall fwy cyfarwydd fyddai sefydliad yn cynnal stondinau crefftwyr a gwneuthurwyr. Gall y dull hwn fod yn arbennig o ddefnyddiol os yw sefydliad yn cael trafferthion ariannol, neu'n brin o adnoddau neu gapasiti, gan ei fod yn parhau i gynnig cyfle i ddatblygu cysylltiadau ystyrlon drwy rannu adnoddau breintiedig yn aml gyda chymunedau a phartneriaid. Dysgwch fwy am nodweddion y model cyfranogiad lletya yn llyfr Participatory Museum gan Nina Simon.

Gwerthoedd: cydweithredu, gwerthfawrogi pob math o arbenigedd, democrataidd, gofal a thosturi, gostyngeiddrwydd, parch, tryloywder, galluogedd, perthyn.

Egwyddorion

Caiff ymgysylltiad lletya ei wneud **gan** grwpiau cymunedol a phartneriaid, gyda'r sefydliad efallai'n cefnogi'r broses (e.e. gwneud cysylltiadau â grwpiau cymunedol a phartneriaid, cefnogi logisteg digwyddiadau, ac ati) ond gan adael bron bob rheolaeth wrth y drws, a gweithredu fel cynghreiriad cymunedol ac ased cryf.

Mae'r prosesau'n cael eu gyrru'n gyfan gwbl gan y cyfranogwyr sy'n cael eu lletya, gydag ychydig iawn o gyfranogiad gan yr amgueddfa. Y cyfranogwyr sy'n cychwyn, yn arwain, yn cynllunio ac yn cyflawni pob agwedd ar y gwaith, gan ddilyn y rheolau gofynnol (e.e. gweithdrefnau iechyd a diogelwch, asesiadau risg, rheolau trwyddedu, ac ati). Mae'r allbynnau'n eiddo'n llwyr i'r cyfranogwyr. Gallai'r mathau hyn o ymgysylltu fod yn rhai untro (e.e. digwyddiad gyda'r nos mewn amgueddfa sydd wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno gan grŵp cymunedol) neu'n gyfres o weithgareddau rheolaidd (e.e. cynnal grŵp gwau bob wythnos a rhoi defnydd rheolaidd o ofod iddyn nhw). Mae gweithgareddau lletya yn digwydd yn y sefydliad yn bennaf.

Yn wahanol i rai o'r modelau ymgysylltu â'r gymuned eraill, mae'r dull hwn yn canolbwyntio llai ar ddatblygu cysylltiadau sydd o fudd i'r ddwy ochr, a mwy ar sut gall y sefydliad ddefnyddio ei asedau a'i bŵer i fod o fudd llawn i'r gymuned.

Mae amrywiaeth eang o fanteision i gyfranogwyr sy'n cael eu lletya, gan gynnwys y teimlad eu bod yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi gan amgueddfa am eu cyfraniadau a'u gallu, ynghyd â nifer o fanteision mwy ymarferol (fel y trafodwyd yn flaenorol). Gallai cyfranogwyr sy'n cael eu lletya hefyd elwa ar gefnogaeth ychwanegol neu arbenigedd staff (er enghraifft, rheoli prosiect, iechyd a diogelwch, marchnata, ac ati) pan ofynnir amdanynt.

Er nad buddion sefydliadol yw'r grym sy'n gyrru'r math hwn o waith, gall sefydliadau serch hynny ddatblygu cysylltiadau a phartneriaethau cryfach a mwy ystyrlon gyda chymunedau a grwpiau, ac elwa ar gynigion sefydliadol mwy creadigol ac arloesol sy'n defnyddio llai o adnoddau.

Lletya

Gallai Ymgysylltiad Lletya edrych fel...

- Darparu lle i grŵp cymunedol neu gymdeithasol gynnal cyfarfodydd rheolaidd.
- Grŵp cymunedol yn 'meddiannu' amgueddfa gyfan neu ofod mewn amgueddfa. Gallai hyn olygu bod grŵp cymunedol yn trefnu ac yn cynnal digwyddiad yn y gofod.
- Marchnad gwneuthurwyr mewn gofod amgueddfa, a drefnir gan grŵp o wneuthurwyr lleol.
- Darparu lle i grŵp cymunedol sy'n dymuno cyflwyno gweithdy i deuluoedd yn yr amgueddfa.
- Cynnal arddangosfa a grëwyd gan y gymuned mewn amgueddfa.

Cyngor ar Ymgysylltiad Lletya

- Ystyriwch yr **amser a'r gyllideb** sydd eu hangen i gefnogi ymgysylltiad lletya. Er y gall y dull hwn ddefnyddio llai o adnoddau a llai o gapasiti na mathau eraill o ymgysylltu, bydd angen i chi greu capasiti a dod o hyd i'r gyllideb angenrheidiol i wneud y gwaith hwn.
- Ystyriwch a fyddwch yn **mynd yn uniongyrchol at gymunedau** i ofyn a hoffen nhw gyflwyno digwyddiad / cyfres o ddigwyddiadau / arddangosfa, ac ati; gwnewch alwad agored i grwpiau cymunedol; neu gymysgedd o'r ddau. Os byddwch yn gwneud galwad agored, gwnewch yn siŵr y bydd gennych system glir a hygyrch sy'n galluogi cymunedau i fynegi diddordeb a gwneud cais i gynnal digwyddiad/arddangosfa.
- Dylech **gyfleu unrhyw bolisïau a gweithdrefnau sefydliadol** y mae angen cadw atyn nhw yn glir, yn ogystal â'r cyfleusterau a'r adnoddau a fydd ar gael i gymunedau sy'n darparu gweithgareddau lletya.
- **Penderfynwch pa gefnogaeth rydych chi am ei darparu i gymunedau**. Er enghraifft, efallai y byddwch yn darparu cymorth logisteg, iechyd a diogelwch, cynllunio, marchnata, ac ati. Gwnewch yn siŵr bod pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir.
- Ystyriwch greu **cod ymddygiad** sy'n sicrhau bod digwyddiadau/ arddangosfeydd lletya yn gynhwysol ac yn hygyrch, yn groesawgar ac yn ddiogel.
- Efallai y byddwch am ystyried sut i **ddyfnhau'r berthynas â chyfranogwyr sy'n cael eu lletya**. Er enghraifft, os ydych yn cynnal cyfarfod rheolaidd o grŵp cymdeithasol, beth allech chi ei roi ar waith i annog y cyfranogwyr i gymryd rhan yng ngweithgareddau eraill yr amgueddfa?



Capsiwn delwedd: Sesiwn Ffotograffiaeth Student Art Pass, yr Amgueddfa Ddylunio, 26 Mehefin 2024, © Hydar Dewachi / Art Fund 2024

Lletya

Astudiaeth Achos: CCA Glasgow: Rhaglennu ffynhonnell agored

Canolfan gelfyddydol fechan a gofod oriel heb gasgliad parhaol yw CCA Glasgow, sy'n cynnal cyfres o arddangosfeydd dros dro a rhaglen gyhoeddus gyfoethog bob blwyddyn. Ers 2006 maen nhw wedi datblygu dull ffynhonnell agored arloesol gyda'u gwaith, gan gydnabod diwylliant cyfoethog Glasgow, y gymuned fawr o artistiaid, y sîn gerddoriaeth sefydledig, a diddordeb y cynulleidfaoedd mewn ffilm, llenyddiaeth a pherfformiadau, yn ogystal â chyfle i adlewyrchu 'safbwyntiau mwy diwylliannol na allai ein tîm bach ei gyflawni ar ei ben ei hun' (CCA Glasgow 2024). Mae eu dull yn cynnwys llinyn arloesol o raglennu cyhoeddus a arweinir gan ddinasyddion, lle maen nhw'n rhannu eu hadnoddau a'r adeilad gydag amrywiaeth o artistiaid, unigolion a sefydliadau i raglennu eu digwyddiadau eu hunain, gan gynnwys rhaglennu gyda SQIFF (Gŵyl Ffilmiau Ryngwladol Cwiar yr Alban) a Counterflows.

Dros amser, mae CCA Glasgow wedi ffurfioli eu proses o raglennu ffynhonnell agored. Erbyn hyn, mae gan yr oriel staff ymroddedig i gefnogi'r rhaglen ac maen nhw'n darparu technegwyr a staff blaen y tŷ am gost; dyma fodel sydd bron yn hunangynhaliol, gyda'r oriel yn gwneud dim elw. Mewn llawer o achosion caiff gofodau eu cynnig am ddim, a chodir tâl ar sefydliadau sydd â chyllid ychwanegol, ond ar gyfradd is. Gall y gymuned artistig gyflwyno cynigion i gynnal digwyddiadau, gweithgareddau a gweithdai i'r cyhoedd yn y gofod, yna bydd yr oriel yn dewis o'u plith ac yn ffurfio rhaglen gyhoeddus yr oriel. Gallwch ddysgu mwy am Raglennu ffynhonnell agored CCA Glasgow yma.



Llun: Tiu Makkonen

Pa ddull(iau) sy'n gweithio orau ar gyfer y gwaith rydw i eisiau ei wneud, fy amgueddfa, a'r gymuned/ cymunedau rydw i'n gweithio gyda nhw?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Gwerthuso gwaith Ymgysylltu â'r Gymuned

Dylid ymgorffori'r gwaith o werthuso prosiect neu raglen ymgysylltu â'r gymuned o'r cychwyn cyntaf. Penderfynwch ar eich dull gwerthuso wrth gynllunio'ch prosiect a'i werthuso drwyddo draw.

Dylai'r gwerthusiad fesur i ba raddau mae'r gwaith yn cyrraedd, ac wedi cyrraedd, y nodau a'r amcanion a fwriadwyd. Pa effeithiau mae'r gwaith wedi'u cael? Pa wahaniaeth mae wedi'i wneud i bobl, cymunedau, a'ch amgueddfa?

Ystyriwch pwy fydd yn cynnal gwerthusiad o'ch gwaith. A fydd hyn yn cael ei wneud gan staff a/neu wirfoddolwyr, neu gan ymgynghorydd allanol? Os mai ymgynghorydd allanol fydd yn ei wneud, gwnewch yn siŵr eich bod yn cyllidebu'n briodol ar gyfer y gwaith hwn ac anelwch at eu contractio ar ddechrau'r broses, nid ar y diwedd. Os ydych yn cyd-greu prosiect, dylech gynnwys y cyd-grewyr yn y broses werthuso.

Mae nifer o egwyddorion gwerthuso yn sail i werthusiad Going Places, a all hefyd fod yn ddefnyddiol i lywio prosiectau ymgysylltu â'r gymuned eraill. Ystyriwch y canlynol:

- **Canolbwyntio'r gweithgaredd gwerthuso ar 'ddysgu' yn hytrach nag 'asesu'**, neu, yn syml, 'eiriolaeth'. Mae hyn yn berthnasol i sefydliadau ac i unigolion sy'n rhan o'r gwaith.
- **Meithrin** gonestrwydd rhwng unigolion a sefydliadau, er mwyn annog trafodaeth am yr hyn nad yw'n gweithio, yn ogystal â'r hyn sy'n gweithio.
- **Bod yn dryloyw gyda phawb sy'n rhan o'r gwaith** ynghylch pa wybodaeth rydych yn ei chasglu ar gyfer y gwerthusiad a pham.
- **Casglu'r lleiafswm ymarferol o ddata** gan sefydliadau sy'n cymryd rhan er mwyn peidio â rhoi gormod o faich arnyn nhw. **Dim ond casglu gwybodaeth sy'n ddefnyddiol er mwyn deall a yw'r gweithgaredd yn cyflawni ei nodau**, ac i fwydo i mewn i arferion gorau yn y sector. Sicrhewch fod eich gwaith yn cydymffurfio â GDPR.
- **Canolbwyntio ar ansawdd y wybodaeth** a gesglir i sicrhau bod y canfyddiadau yn gadarn ac yn ddefnyddiol.
- Cefnogi sefydliadau i **ddatblygu eu sgiliau a'u capasiti** i gyflawni gwerthusiad.
- **Cynnwys partneriaid cymunedol yn y broses werthuso** a bod yn agored i ystod eang o safbwyntiau a barn i herio rhagdybiaethau.

Gwerthuso gwaith Ymgysylltu â'r Gymuned

Gellir defnyddio nifer o ddulliau gwerthuso i werthuso prosiectau ymgysylltu â'r gymuned. Y dulliau a ddefnyddir yn y prosiect Going Places yw:

- **Logiau gweithdai:** Cofnodi gwybodaeth am gyfranogwyr e.e. nifer y cyfranogwyr, oedran, cod post, manylion cyswllt, cydsyniadau, anghenion ac alergeddau, manylion cyswllt mewn argyfwng; a chofnodi ymddygiadau'r grŵp fesul sesiwn e.e. unrhyw ymweliadau blaenorol â'r amgueddfa/oriel a phryd, amlder presenoldeb, arsylwadau'r hwylusydd yn ystod y sesiwn, allbynnau a gofnodwyd (e.e. lluniau o weithdai, cynnwys a grëwyd). Sicrhewch fod eich gwaith yn cydymffurfio â GDPR a'ch bod yn storio unrhyw ddata personol yn ddiogel ac yn dileu'r data pan nad oes ei angen mwyach.
- **Myfyrdodau cyfranogwyr:** Y cyfranogwyr yn cofnodi eu man cychwyn eu hunain yn y broses, fel cyflwyniad ysgrifenedig neu wedi'i recordio (llais neu fideo) gan ymateb i gwestiynau gosod; er enghraifft, 'Beth ydych chi'n gobeithio ei gael o'r prosiect hwn?', 'Beth mae'r amgueddfa/oriel hon yn ei olygu i chi?, 'Pa dri pheth hoffech chi eu datblygu ynoch chi eich hunan yn ystod y prosiect hwn?'. Ar ddiwedd y prosiect, mae cyfranogwyr yn myfyrio ar eu hymatebion gwreiddiol ac yn archwilio eu profiadau, y sgiliau a ddysgwyd, neu newidiadau eraill o ganlyniad i gymryd rhan.
- **Tracio hydredol:** Mae amgueddfeydd yn cadw mewn cysylltiad â chyfranogwyr (gyda chaniatâd optio i mewn) ac yn ymgynghori â nhw dros amser i archwilio effeithiau hirdymor prosiectau ar gyfranogwyr.
- **Panel ieuenctid neu gymunedol:** Panel o gyfranogwyr, wedi'i reoli gan werthuswr y prosiect, sy'n cefnogi'r gwaith gwerthuso. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cynnal cyfweliadau ymwelwyr, cynhyrchu adolygiadau o gynnwys a grëwyd ar y cyd, hwyluso sesiynau myfyrio, a dylunio ffurflenni adborth ymwelwyr. Dylid darparu hyfforddiant a chefnogaeth briodol.
- **Nifer yr ymwelwyr:** Cyfri nifer y cyfranogwyr sy'n cymryd rhan yn y prosiect a nifer yr ymwelwyr sy'n ymgysylltu â'r gwaith a gynhyrchir (e.e. nifer yr ymwelwyr ag arddangosfa a grëwyd ar y cyd).
- **Arolwg ymwelwyr:** Casglu adborth gan gyfranogwyr ac ymwelwyr, ynghyd â gwybodaeth ddemograffig. Gellid cyflwyno arolygon wyneb yn wyneb a/neu ar-lein.
- **Rhyngweithiadau casglu adborth ymwelwyr mewn arddangosfeydd neu arddangosiadau a grëwyd ar y cyd:** Gweithgareddau sy'n galluogi ymwelwyr i roi adborth wrth ymgysylltu ag arddangosfa a grëwyd ar y cyd. Gallai hyn gynnwys gweithgareddau fel pleidleisio mewn ymateb i gwestiynau a ofynnir gan yr arddangosfa, waliau adborth, neu gemau.
- **Sylwadau staff:** Staff neu wirfoddolwyr yn cofnodi eu harsylwadau o gyfranogwyr a/neu ymwelwyr; er enghraifft, ym mha rannau o arddangosfa a grëwyd ar y cyd mae ymwelwyr yn treulio amser ynddyn nhw a faint o amser maen nhw'n ei dreulio yno?
- **Myfyrdod tîm FailSpace:** Pa raddau o lwyddiant neu fethiant ydych chi wedi'i gael mewn gwahanol rannau o'r prosiect, gan gynnwys y prosesau a roddwyd ar waith a datblygiad eich arfer?mewn gwahanol rannau o'r prosiect, gan gynnwys y prosesau a roddwyd ar waith a datblygiad eich arfer?

Gwerthuso gwaith Ymgysylltu â'r Gymuned

Gallwch ddod o hyd i ddulliau gwerthuso eraill yma:

- Little Book of Evaluation Tools, Prifysgol Rhydychen: https://www.ox.ac.uk/sites/files/oxford/media_wysiwyg/Curiosity%20Carnival-%20Little%20book%20of%20evaluation%20tools-%20to%20share.pdf
- Measuring Socially Engaged Practice, Cymdeithas yr Amgueddfeydd: https://www.museumsassociation.org/campaigns/museums-change-lives/measuring-socially-engaged-practice/
- How to Co-create an Evaluation, Mark Robinson: https://www.culturehive.co.uk/CVIresources/how-to-co-create-an-evaluation/
- Failspace: https://failspaceproject.co.uk/
- Y Ganolfan Gwerth Diwylliannol: https://www.culturehive.co.uk/research-and-evaluation-practice/

Cymerwch amser i ddadansoddi'r data rydych chi'n ei gasglu, a dewch o hyd i fewnwelediadau o'r data.

- Beth mae'r **data yn ei ddweud wrthoch chi?**
- Pa wersi allwch chi eu dysgu ar gyfer arfer yn y dyfodol?
- Os ydych yn darparu **prosiect mwy hirdymor, casglwch a dadansoddwch ddata trwy gydol y prosiect** i'ch helpu i fyfyrio ar eich arfer ac ystyried a oes angen i chi wneud newidiadau.
- Ystyriwch **ddadansoddi'r data gyda phobl eraill** fel y gall pob un ohonoch gynnig eich safbwyntiau eich hunan.

Meddyliwch am ble a sut y byddwch yn **rhannu'r gwerthusiad**.

- Yn **ystod y prosiect**, efallai y byddwch yn trafod y canfyddiadau'n rheolaidd gyda chyd-grewyr, er enghraifft. Mae'n bosib y bydd yn rhaid i chi hefyd adrodd yn ôl yn rheolaidd i randdeiliaid ac arianwyr mewnol ac allanol.
- **Ar ddiwedd y prosiect**, efallai y byddwch yn rhannu eich canfyddiadau mewn nifer o ffyrdd – er enghraifft, gallech ysgrifennu **adroddiad gwerthuso prosiect**, cynhyrchu **fideo**, creu **gwefan**, a/neu **siarad mewn cynhadledd**. Ystyriwch pa ddulliau rhannu canfyddiadau sydd fwyaf addas ar gyfer y bobl a'r sefydliadau a fydd yn darllen/gwylio/gwrando ar eich gwerthusiad. Gallwch rannu'r gwerthusiad mewn sawl ffordd, yn dibynnu ar y gynulleidfa/cynulleidfaoedd dan sylw.

Pa ganlyniadau ydyn ni'n gobeithio eu gweld gan y prosiect hwn?

Pa ddulliau fyddwn ni'n eu defnyddio i werthuso'r prosiect?

Pwy fydd yn arwain ac yn cefnogi'r gwerthusiad?

Sut byddwn ni'n creu amser ar gyfer adolygu a myfyrio? Sut olwg fydd ar hyn?

Sut byddwn ni'n rhannu canfyddiadau'r gwerthusiad a gyda phwy?

Diolch i Kate Wafer, Daniel Hadley ac Eric Hildrew o Wafer Hadley, Ymgynghorwyr Gwerthuso ar gyfer y prosiect Going Places, am gynorthwyo gyda'r adran hon o'r pecyn cymorth.

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Map Ffordd Ymgysylltu â'r Gymuned

Pa bynnag ddull o ymgysylltu â'r gymuned y byddwch chi'n dewis ei wneud, mae angen i chi ystyried materion tebyg. Bydd ateb y cwestiynau ar y tudalennau hyn yn eich helpu i ddatblygu a siapio eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned, pa bynnag ddull y byddwch yn penderfynu ei ddefnyddio.

Cynllunio

Cynllunio Strategol

- Pa nodau sefydliadol mae ein prosiect yn cyd-fynd â nhw?
- Beth yw nodau ac amcanion ein prosiect?
- Sut byddwn ni'n gwerthuso ein prosiect? Sut byddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyrraedd ein nodau a'n hamcanion? (Gweler Gwerthuso)

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Map Ffordd Ymgysylltu â'r Gymuned

Pa bynnag ddull o ymgysylltu â'r gymuned y byddwch chi'n dewis ei wneud, mae angen i chi ystyried materion tebyg. Bydd ateb y cwestiynau ar y tudalennau hyn yn eich helpu i ddatblygu a siapio eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned, pa bynnag ddull y byddwch yn penderfynu ei ddefnyddio.

Cynllunio

Adnoddau Staff a Gweithio gyda Chydweithwyr

- Pwy fydd yn rhan o gyflawni ein prosiect? Staff? Gwirfoddolwyr? Gweithwyr llawrydd? Manteisiwch ar arbenigedd pawb a gwnewch yn siŵr bod pawb sy'n rhan o'r prosiect yn cymryd rhan ac yn deall y prosiect yn llawn.
- Pa rôl(au) fydd gan bawb wrth gyflawni ein prosiect? Faint o amser sydd gan staff a gwirfoddolwyr ar gyfer y gwaith hwn? Sut bydd yr amser yn cael ei ddefnyddio? A oes angen hyfforddiant ar unrhyw un i'w cefnogi i gyflawni tasgau?
- A oes angen pennu cytundebau penodol gyda chydweithwyr mewn adrannau eraill i gefnogi'r gwaith hwn? Er enghraifft, a oes angen i ni weithio gyda Rheolwr neu Gofrestrydd Casgliadau i greu cytundebau benthyca?; A oes angen i ni weithio gyda'r tîm Cyllid i greu prosesau talu ar gyfer grwpiau cymunedol?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Map Ffordd Ymgysylltu â'r Gymuned

Pa bynnag ddull o ymgysylltu â'r gymuned y byddwch chi'n dewis ei wneud, mae angen i chi ystyried materion tebyg. Bydd ateb y cwestiynau ar y tudalennau hyn yn eich helpu i ddatblygu a siapio eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned, pa bynnag ddull y byddwch yn penderfynu ei ddefnyddio.

Cynllunio

Cyllideb

Cofiwch, mae eich cyllideb yn gyfyngedig; bydd angen i chi wneud dewisiadau ynghylch beth i'w gynnwys. Torrwch unrhyw beth allan nad yw'n eich helpu i gyflawni'ch amcanion. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys digon o gyllideb i ddarparu'r capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen arnoch i gyflawni'r prosiect.

- Pa gyllideb sydd ar gael ar gyfer y gwaith hwn? A ydyn ni'n defnyddio cyllideb graidd, cyllid allanol, neu gymysgedd o'r ddau? A oes angen i ni ddod o hyd i ragor o gyllid allanol i alluogi'r gwaith hwn i ddigwydd?
- Sut bydd y gyllideb yn cael ei dyrannu? Beth sydd angen i ni ei gynnwys i gyflawni nodau ac amcanion ein prosiect? Faint fydd cost staffio? Faint o arian, os o gwbl, sydd ei angen i ddigolledu cyfranogwyr?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Map Ffordd Ymgysylltu â'r Gymuned

Pa bynnag ddull o ymgysylltu â'r gymuned y byddwch chi'n dewis ei wneud, mae angen i chi ystyried materion tebyg. Bydd ateb y cwestiynau ar y tudalennau hyn yn eich helpu i ddatblygu a siapio eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned, pa bynnag ddull y byddwch yn penderfynu ei ddefnyddio.

Cynllunio

Cyllideb

- Pwy sydd angen bod yn rhan o'r gwaith o lunio ein cyllideb? Pwy sydd angen cymeradwyo'r gyllideb?
- I ba arianwyr allanol, os o gwbl, fyddwn ni'n gwneud cais? Pa weithgareddau a chyllid ydyn ni'n gwneud cais amdanyn nhw?
- Sut byddwn ni'n monitro ac yn adrodd ar y gyllideb yn ystod y prosiect? Pwy fydd yn gyfrifol am y tasgau hyn?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Map Ffordd Ymgysylltu â'r Gymuned

Pa bynnag ddull o ymgysylltu â'r gymuned y byddwch chi'n dewis ei wneud, mae angen i chi ystyried materion tebyg. Bydd ateb y cwestiynau ar y tudalennau hyn yn eich helpu i ddatblygu a siapio eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned, pa bynnag ddull y byddwch yn penderfynu ei ddefnyddio.

Cynllunio

Cynulleidfaoedd

- Pa gymunedau ydyn ni'n mynd i ymgysylltu â nhw? A fyddwn ni'n ymgysylltu â chynulleidfaoedd presennol, cynulleidfaoedd newydd, neu'r ddau? Pam ydyn ni'n dewis ymgysylltu â'r gymuned hon/y cymunedau hyn?

Dull o ymgysylltu â'r gymuned

- Pa ddull(iau) sy'n gweddu orau i anghenion y prosiect, yr amgueddfa, a'r gymuned/ cymunedau rydyn ni'n gweithio gyda nhw?
- Sut olwg fydd ar ein prosiect? Pa ddulliau ac ymagwedd(au) sy'n cyd-fynd â'n capasiti, ein cyllideb a'n hamserlenni?
- Ble bydd yr ymgysylltu â'r gymuned yn digwydd? Pa leoliadau sy'n gweddu orau i'r prosiect a'r gymuned/cymunedau?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Map Ffordd Ymgysylltu â'r Gymuned

Pa bynnag ddull o ymgysylltu â'r gymuned y byddwch chi'n dewis ei wneud, mae angen i chi ystyried materion tebyg. Bydd ateb y cwestiynau ar y tudalennau hyn yn eich helpu i ddatblygu a siapio eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned, pa bynnag ddull y byddwch yn penderfynu ei ddefnyddio.

Cynllunio

Marchnata a Chyfathrebu

- Pa negeseuon pwysig sydd angen eu cyfleu i gynulleidfaoedd, rhanddeiliaid mewnol, a rhanddeiliaid allanol? Pryd mae angen cyfathrebu'r negeseuon hyn?
- Pwy fydd yn rhan o'r gwaith o gyfathrebu am y prosiect i randdeiliaid mewnol ac allanol? A oes angen hyfforddiant arnyn nhw i gefnogi'r dasg hon?
- Pa ddulliau marchnata a chyfathrebu fyddwn ni'n eu defnyddio i gyrraedd cyfranogwyr a chynulleidfaoedd eraill?
- Sut fyddwn ni'n cyfathrebu pob cam a/neu weithgaredd o'n prosiect? Sut fyddwn ni'n cyfathrebu llwyddiannau ein prosiect a gyda phwy?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Map Ffordd Ymgysylltu â'r Gymuned

Pa bynnag ddull o ymgysylltu â'r gymuned y byddwch chi'n dewis ei wneud, mae angen i chi ystyried materion tebyg. Bydd ateb y cwestiynau ar y tudalennau hyn yn eich helpu i ddatblygu a siapio eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned, pa bynnag ddull y byddwch yn penderfynu ei ddefnyddio.

Cynllunio

Polisïau a Gweithdrefnau

- Pa bolisïau a gweithdrefnau sydd gan yr amgueddfa ar waith i gefnogi'r gwaith hwn? e.e. Iechyd a Diogelwch, Diogelu.
- A oes angen i ni wneud unrhyw ychwanegiadau neu addasiadau i'n polisïau a'n gweithdrefnau presennol? e.e. A oes angen prosesau symlach arnon ni er mwyn i gyd-grewyr gael eu tâl ariannol?
- Pa ddogfennaeth arall, os o gwbl, sydd angen i ni ei rhoi ar waith i gefnogi'r prosiect hwn? e.e. Asesiadau Risg.

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Map Ffordd Ymgysylltu â'r Gymuned

Pa bynnag ddull o ymgysylltu â'r gymuned y byddwch chi'n dewis ei wneud, mae angen i chi ystyried materion tebyg. Bydd ateb y cwestiynau ar y tudalennau hyn yn eich helpu i ddatblygu a siapio eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned, pa bynnag ddull y byddwch yn penderfynu ei ddefnyddio.

Recriwtio

- Sut byddwn ni'n recriwtio cyfranogwyr a/neu gyd-grewyr? Pa sianeli fyddwn ni'n eu defnyddio?
- A fyddwn ni'n mynd at bartneriaid posib yn uniongyrchol neu'n gwneud galwad agored (neu'r ddau)?
- Beth fydd y broses recriwtio? Sut byddwn ni'n sicrhau ei bod mor gynhwysol â phosib? Pa ddulliau recriwtio sy'n briodol ar gyfer ein darpar gyfranogwyr? Gweler **pecyn cymorth Recriwtio Cynhwysol CIPD** am gyngor ar recriwtio cynhwysol.

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Map Ffordd Ymgysylltu â'r Gymuned

Pa bynnag ddull o ymgysylltu â'r gymuned y byddwch chi'n dewis ei wneud, mae angen i chi ystyried materion tebyg. Bydd ateb y cwestiynau ar y tudalennau hyn yn eich helpu i ddatblygu a siapio eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned, pa bynnag ddull y byddwch yn penderfynu ei ddefnyddio.

Darparu

- Sut byddwn ni'n cael caniatâd priodol gan gyfranogwyr a/neu gyd-grewyr?
- Pa fecanwaith fydd i gyfranogwyr a/neu gyd-grewyr adael y prosiect/sesiwn untro?
- Sut olwg fydd ar ein sesiwn/sesiynau ymgysylltu â'r gymuned? Pa weithgareddau fyddwn ni'n eu cynnwys? Ble bydd gweithgareddau'n cael eu cyflwyno? Pa dechnegau hwyluso, os o gwbl, y mae angen i ni eu defnyddio?
- Sut byddwn ni'n meithrin ymddiriedaeth a chydberthynas â chyfranogwyr a/neu gyd-grewyr?
- Sut byddwn ni'n cadw golwg ar benderfyniadau a wneir gan y grŵp, neu syniadau a gaiff eu cynhyrchu gan ymgyngoreion?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Map Ffordd Ymgysylltu â'r Gymuned

Pa bynnag ddull o ymgysylltu â'r gymuned y byddwch chi'n dewis ei wneud, mae angen i chi ystyried materion tebyg. Bydd ateb y cwestiynau ar y tudalennau hyn yn eich helpu i ddatblygu a siapio eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned, pa bynnag ddull y byddwch yn penderfynu ei ddefnyddio.

Darparu

- Sut a pha mor aml fyddwn ni'n cyfathrebu â chyfranogwyr a/neu gyd-grewyr yn ystod y prosiect?
- Sut a pha mor aml fyddwn ni'n cyfathrebu am y prosiect gyda rhanddeiliaid mewnol e.e. staff a gwirfoddolwyr; ac i randdeiliaid allanol e.e. arianwyr?
- Beth fyddwn ni'n ei wneud os aiff pethau o chwith neu os na fydd pethau'n mynd fel y bwriadwyd? A allen ni newid ein dull? A allen ni alw ar fentoriaid, cynghorwyr, neu bobl yn ein rhwydweithiau am gyngor?
- Sut byddwn ni'n sicrhau ein bod yn cyrraedd cerrig milltir y prosiect ac yn cadw at yr amserlenni y cytunwyd arnyn nhw?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Map Ffordd Ymgysylltu â'r Gymuned

Pa bynnag ddull o ymgysylltu â'r gymuned y byddwch chi'n dewis ei wneud, mae angen i chi ystyried materion tebyg. Bydd ateb y cwestiynau ar y tudalennau hyn yn eich helpu i ddatblygu a siapio eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned, pa bynnag ddull y byddwch yn penderfynu ei ddefnyddio.

Gwerthuso

- Sut byddwn ni'n sicrhau bod y gwerthuso'n cael ei gynnwys yn ein prosiect o'r cychwyn cyntaf?
- Pa ddulliau fyddwn ni'n eu defnyddio i gasglu data? Pryd fyddwn ni'n casglu data a gan bwy? Pwy fydd yn gyfrifol am hyn?
- Pryd fyddwn ni'n dadansoddi'r data rydyn ni wedi'i gasglu? Pwy fydd yn gyfrifol am hyn?
- A fyddwn ni'n neilltuo amser ar gyfer adolygu a myfyrio? Sut olwg fyddai ar hyn? Pa mor aml fyddwn ni'n adolygu ac yn myfyrio? Pwy fydd yn ymwneud â hyn?
- Sut byddwn ni'n rhannu canfyddiadau'r gwerthusiad a gyda phwy? Pwy fydd yn gyfrifol am greu deunyddiau rhannu canfyddiadau e.e. adroddiadau, fideos, ac ati?
- Sut byddwn ni'n defnyddio'r broses werthuso i lywio ein harferion yn y dyfodol?

Lle i nodi syniadau, gwneud nodiadau, neu gofnodi pethau i ddod yn ôl atyn nhw'n ddiweddarach:

Geirfa Anghyflawn

Mewn amgueddfeydd, orielau, a sefydliadau diwylliannol a threftadaeth, mae'r ymadrodd 'ymgysylltu â'r gymuned' yn cael ei ddefnyddio'n eang, ond nid yw bob amser yn cael ei ddeall yn llawn, neu gall olygu pethau gwahanol mewn gwahanol amgueddfeydd. Yn aml, defnyddir ymgysylltu â'r gymuned fel term ymbarél ar gyfer gwaith a ystyrir yn waith cyfranogol. Mae rhai termau (e.e. cyd-gynhyrchu, cyd-ddylunio, cyd-greu) hefyd yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol weithiau.

Rydyn ni wedi creu'r eirfa hon i helpu i ddiffinio geiriau a thermau y gallech ddod ar eu traws wrth gynllunio a chyflawni eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned. Gall bod â dealltwriaeth eang o'r derminoleg eich helpu i reoli disgwyliadau, deall pa fathau o rolau a chysylltiadau sy'n cael eu datblygu, bod yn glir ynghylch lefel y cyfranogiad a ddisgwylir a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer eich gwaith ymgysylltu â'r gymuned, ac egluro'r cymhellion a'r gwerthoedd sy'n sail i'ch gwaith.

Rydyn ni wedi galw hon yn eirfa anghyflawn gan fod iaith a therminoleg yn newid, yn addasu ac yn esblygu'n barhaus, a'i bod weithiau'n gallu bod yn gymhleth ac yn gyferbyniol. Rydyn ni'n gobeithio y bydd termau'n cael eu hychwanegu ati'n barhaus ac y bydd yn newid dros amser i adlewyrchu iaith sy'n esblygu ac unrhyw newidiadau i arferion ymgysylltu â'r gymuned.



Capsiwn delwedd: Sesiwn Ffotograffiaeth Student Art Pass, yr Amgueddfa Ddylunio, 26 Mehefin 2024, © Hydar Dewachi / Art Fund 2024

Geirfa Anghyflawn

Yma rydyn ni'n amlinellu'r hyn a olygwn wrth y termau canlynol:

Ymgysylltu â'r Gymuned: Mae'n cynnwys ystod eang o weithgareddau sydd, yn fras, yn golygu cynnwys cymunedau mewn prosesau democrataidd a chynhwysol o wneud penderfyniadau ar y cyd er mwyn creu cysylltiadau mwy ystyrlon, llunio cynnwys mwy perthnasol, a dod o hyd i atebion ar y cyd ag amgueddfeydd, orielau, a sefydliadau diwylliannol a threftadaeth.

Cymuned: Term cyffredinol am grŵp o bobl â diddordebau tebyg, nodweddion cyffredin, o leoliad daearyddol penodol, a/neu sy'n rhannu hunaniaeth, diwylliant neu nodwedd warchodedig. Mae'n bwysig cofio bod cymunedau bob amser yn newid, y gallai pobl uniaethu â rhai cymunedau yn fwy nag eraill, neu beidio â theimlo'n rhan o gymuned o gwbl, ac nid yw'r ffaith bod dau berson yn rhan o'r un gymuned yn golygu bod ganddyn nhw unrhyw beth arall yn gyffredin.

Cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, cymunedau nad ydyn nhw'n cael eu gwasanaethu'n ddigonol, neu gymunedau lleiafrifiedig: Grwpiau o bobl nad yw sefydliadau diwylliannol a threftadaeth yn ymgysylltu â nhw mor llawn â grwpiau eraill neu efallai nad ydyn nhw'n ymgysylltu â nhw o gwbl ar hyn o bryd. Gallai hyn gynnwys cynulleidfaoedd, yn ogystal â staff a gwirfoddolwyr.

Cynulleidfaoedd Presennol: Grwpiau o bobl sy'n ymweld yn aml â'ch amgueddfa, oriel neu sefydliad diwylliannol/treftadaeth, ac yn gyffredinol nad oes unrhyw rwystrau penodol rhag ymgysylltu â hi.

Cydweithredwyr a Chyd-grewyr: Unigolion neu grwpiau o bobl sy'n cymryd rhan weithredol fel cyd-arweinwyr ym mhob cam o'r gwaith, o'r cam cychwynnol a chysyniadu hyd at y cam cyflwyno a'r gwerthuso. Mae eu harbenigedd, sgiliau, gwybodaeth a phrofiad bywyd yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu'n llawn. Maen nhw'n cyd-ddatblygu gweledigaeth a nod a rennir gydag amgueddfeydd ac maen nhw'n gyd-awduron ac yn gyd-berchnogion ar y gwaith. Fel rheol, dylen ni gynnig cydnabyddiaeth ariannol i gydweithredwyr a chyd-grewyr am eu hamser a'u harbenigedd – gweler Fframwaith Digolledu Going Places am ragor o fanylion.

Ymarferydd Creadigol: Gweithiwr proffesiynol sydd â set sgiliau eang neu benodol sy'n defnyddio ac yn rhannu creadigrwydd ag eraill. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, artistiaid, dawnswyr, ysgrifenwyr, darlunwyr, animeiddwyr, ffotograffwyr, gwneuthurwyr ffilm, cerddorion, storïwyr, a dylunwyr.

Hwylusydd: Unigolyn sy'n arwain grŵp drwy broses ddemocrataidd i gyflawni eu nodau. Maen nhw'n modelu'r mathau o ymddygiadau a gwerthoedd a ddisgwylir gan y grŵp ac yn ceisio creu deinameg grŵp cadarnhaol ar gyfer ymgysylltu drwy roi cyfle i bawb gyfrannu'n gyfartal ac yn deg ac archwilio gyda'i gilydd, gan annog pawb i gymryd cyfrifoldeb, a chydweithio yn onest.

Geirfa Anghyflawn

Yma rydyn ni'n amlinellu'r hyn a olygwn wrth y termau canlynol:

Cyfranogwyr: Unigolyn neu grŵp o bobl sy'n cymryd rhan weithredol mewn ffurf o broses ymgysylltu a gwneud penderfyniadau, gan rannu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u harbenigedd. Arweinir y cyfranogwyr gan y sefydliad. Yn dibynnu ar y math o waith ymgysylltu, lefel y cyfranogiad, a'r buddsoddiad o ran amser ac egni, gallech gynnig tâl i gyfranogwyr – gweler Fframwaith Going Places am ragor o fanylion.

Rhanddeiliaid: Unigolyn neu grŵp o bobl sydd â rhan mewn amgueddfa, oriel, sefydliad diwylliannol neu dreftadaeth, neu sy'n ymwneud â nhw, neu sydd â'r potensial i gael eu heffeithio gan weithgareddau'r sefydliadau hynny. Mae rhanddeiliaid yn gallu bod yn fewnol ac yn allanol i'r sefydliad.

Gwirfoddolwyr: Unigolyn neu grŵp o bobl sy'n cynnig eu hamser a'u harbenigedd am ddim.

Arbenigedd: Yma, rydyn ni'n defnyddio'r term 'arbenigedd' i gyfeirio at y wybodaeth arbenigol a'r sgiliau a gafwyd drwy addysg a'r arbenigedd a ddatblygir drwy brofiad bywyd. Mewn gwaith ymgysylltu â'r gymuned, mae pob math o arbenigedd yn cael ei barchu a chydnabyddir bod profiad byw yn arbenigedd ynddo'i hun.

Hwyluso: Dull sy'n defnyddio set benodol o sgiliau i arwain grŵp yn effeithiol drwy broses ddemocrataidd a chyfranogol. Yng nghyd-destun amgueddfeydd, orielau, a sefydliadau diwylliannol a threftadaeth, mae'r hwylusydd (aelod o staff neu weithiwr llawrydd yn aml) yn arwain grŵp i gyflawni eu nodau.

Cynnal y Gofod: Mae 'cynnal y gofod' – sy'n aml yn rhan o broses hwyluso – yn golygu creu gofod diogel i eraill gael eu gweld a'u clywed yn llawn heb farnu. Mae'n golygu gwrando'n ddwfn, peidio â thorri ar draws gyda chyngor, a chynnig cymorth heb fawr o ymyrraeth. Pan gaiff ei wneud yn iawn, mae'n arf pwerus sy'n meithrin ymddiriedaeth ac empathi.

Ymgynghori: Proses lle mae sefydliadau'n ceisio adborth, safbwyntiau a barn gan amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn deall yn well a/neu brofi rhywbeth (er enghraifft, sut gall sefydliad gyflawni anghenion a dymuniadau rhanddeiliaid yn well), er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus y gellir eu cymhwyso i'r gwaith. Er nad yw mor gydweithredol â mathau eraill o ymgysylltu â'r gymuned, gall ymgynghori adeiladu cynulleidfaoedd newydd, helpu gyda phrosesau gwneud penderfyniadau, cefnogi'r gwaith o lunio cynnwys newydd (e.e. oriel neu arddangosfa newydd), a chreu ymdeimlad cryfach o berchnogaeth gymunedol.

Cyfranogiad: Lle mae cyfranogwyr cymunedol yn cymryd rhan weithredol ac yn cyfrannu at brosesau dylunio, rhannu a/neu greu cynnwys gyda sefydliadau diwylliannol a threftadaeth.

Efallai na fydd dechrau, canol a diwedd clir i'r gwaith. Mae'r sefydliad yn tueddu i gychwyn, gosod y paramedrau, ac arwain y gwaith, ond mae'n dysgu o wybodaeth, sgiliau ac arbenigedd y cyfranogwyr. Gall cyfranogiad helpu cymunedau i gysylltu â'i gilydd, cynhyrchu sefydliadau mwy perthnasol ac ymatebol, a chefnogi pawb sy'n rhan o'r gwaith i ddatblygu sgiliau a chreadigrwydd a gwella gwybodaeth ac arbenigedd.

Geirfa Anghyflawn

Yma rydyn ni'n amlinellu'r hyn a olygwn wrth y termau canlynol:

Cydweithredu: Lle mae sefydliadau a chydweithredwyr cymunedol yn cydweithio'n agos, gan herio'r sefyllfa bresennol drwy rannu pŵer, cyfrifoldeb a phenderfyniadau, yn ogystal ag awduraeth a pherchnogaeth. Mae cydweithredwyr yn cymryd rhan uniongyrchol ym mhob cam o'r gwaith, o'r cam cychwynnol a'r cam cysyniadu hyd at y cam cyflwyno a gwerthuso. Er bod llawer yn cael ei rannu mewn gwaith cydweithredol, y sefydliad sy'n pennu'r cyfeiriad a'r naws yn gyffredinol. Nid yw cydweithredu bob amser yn golygu cynhyrchu cynnwys neu allbwn; gall fod yn seiliedig ar ddatblygu cysylltiadau sydd o fudd i'r ddwy ochr yn unig.

Cyd-greu: Yn debyg i gydweithredu ond gyda phwyslais ar y prosesau o greu, cyd-greu yw lle mae awduraeth a pherchnogaeth prosiect yn cael ei rannu gyda chymunedau, ac mae cyfrifoldeb ar y cyd am ganlyniadau'r gwaith. Mae nodau ac arddulliau gweithio cymunedau yr un mor bwysig â rhai'r sefydliad, ac mae pawb sy'n rhan o'r gwaith yn ymgysylltu'n fwriadol ac yn cael amser i gyflawni eu nodau. Mae'r sefydliad yn rhoi'r offer a'r adnoddau i gyfranogwyr gyd-arwain y gwaith ac yn cefnogi eu gweithgareddau.

Cyd-guradu: Yn debyg i gydweithredu ond gydag amcan clir i gyd-guradu arddangosfa neu brosiect. Caiff gwaith cyd-guradu ei arwain gan gymunedau a phartneriaid sy'n llywio cyfeiriad y gwaith ac yn llywio'r broses o'i gyflawni. Unwaith eto, rhennir y penderfyniadau a wneir yn ystod y cam dylunio a chyflawni ond nid o reidrwydd ar y cam cychwynnol a chysyniadu.

Cydgynhyrchu: Yn debyg i gydweithredu ond gyda phwyslais ar gynhyrchu rhywbeth, cydgynhyrchu yw lle mae sefydliadau a chymunedau'n cydweithio'n llawn ac yn ddemocrataidd gyda gweledigaeth a rennir i benderfynu a chreu cynnwys gyda'i gilydd. Mae'n cynnwys ymrwymiad i rannu pŵer lle mae'r ymarferwyr yn hwyluswyr ac yn gydgynhyrchwyr ochr yn ochr ag ystod eang o aelodau cymunedol, partneriaid a grwpiau. Mae gan bawb sy'n rhan o'r gwaith statws cyfartal, caiff arbenigedd ei werthfawrogi'n gyfartal, gwneir penderfyniadau ar y cyd ac mae'r ffocws ar greu canlyniadau sydd o fudd i'r ddwy ochr.

Gweler Fframwaith Cydgynhyrchu y Ganolfan Ymchwil Amgueddfeydd ac Orielau ac Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl am syniadau pellach.

Lletya: Lle mae sefydliad yn trosglwyddo rheolaeth i gymunedau drwy gynnig ei gyfleusterau, gofod, offer a/neu adnoddau, gyda'r opsiwn o ddarparu arweiniad a chymorth arbenigol hefyd. Yn y dull hwn mae'r sefydliad yn gweithredu fel cydberthynas ac ased cymunedol cryf, gan gynnig defnydd o'u sefydliadau (e.e. gofodau, arbenigedd, adnoddau) i ddiwallu anghenion a dymuniadau'r cyfranogwyr (er enghraifft, mae grŵp cymunedol neu bartner sefydliadol yn cael defnyddio gofodau cyfarfod am ddim, neu mae'r sefydliad yn cynnal stondinau crefftwyr a gwneuthurwyr). Mae'r dull hwn yn arbennig o ddefnyddiol os yw sefydliad yn cael trafferth gyda chyllid, adnoddau neu gapasiti, gan ei fod yn parhau i gynnig cyfle i ddatblygu perthynas ystyrlon gyda chymunedau a phartneriaid. Dysgwch fwy am nodweddion y model cyfranogiad lletya yn llyfr Participatory Museum gan Nina Simon.

I gael diffiniadau o dermau ac ymadroddion eraill, ewch i dudalennau 'Arts and Culture Terms and Definitions' Libraries Connected ac 'Art Terms' y Tate.

Rhagor o Adnoddau

Rydyn ni wedi cynnwys dolenni i adnoddau ac erthyglau perthnasol drwy'r pecyn cymorth. Yma, fe welwch ddolenni i adnoddau eraill a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth gynllunio, datblygu a chyflawni eich prosiect ymgysylltu â'r gymuned.

Rhwydwaith Amgueddfeydd Oed-gyfeillgar, adnoddau ar gyfer gweithio gyda phobl hŷn: https://www.culturehealthandwellbeing.org.uk/age-friendly-museums-network

Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol, adnoddau gan gynnwys canllawiau llwyddo: https://aim-museums.co.uk/helping-organisations/resources/

Domenico Sergi Museums, Refugees and Communities (llyfr): https://www.routledge.com/Museums-Refugees-and-Communities/Sergi/p/book/9780367763411?srsltid=AfmBOor14BDHfCLaJUOeHwCoRR55fhq2psXafidNApH9qZLljofTD-co

Engage, adnoddau a phecynnau cymorth i gefnogi artistiaid gweledol ac addysgwyr oriel i ymgysylltu ag ystod eang o gynulleidfaoedd: https://engage.org/resources/

François Matarasso A Restless Art (blog) https://arestlessart.com/

GEM, adnoddau i gefnogi gwaith amgueddfeydd gydag ystod eang o gynulleidfaoedd: https://gem.org.uk/resource/

Kids in Museums, adnoddau ar sut i wneud amgueddfeydd yn fwy hygyrch a chyfeillgar i deuluoedd: https://kidsinmuseums.org.uk/resources/

Kids in Museums, canllawiau ar gyfer ymgysylltu plant, pobl ifanc a theuluoedd â threftadaeth LHDTC+: https://kidsinmuseums.org.uk/resources/how-can-your-museum-engage-children-young-people-and-families-with-lgbtq-heritage/

Laura Crossley Evaluation and consultation: tools for the Inclusive Museum, cyfnodolyn Museologica Brunensia: https://digilib.phil.muni.cz/sites/default/files/pdf/137198.pdf

Ymgysylltu â'r Gymuned gan Awdurdodau Lleol, astudiaethau achos: https://www.local.gov.uk/our-support/leadership-workforce-and-communications/comms-hub-communications-support/new-10

Migration Museum, pecyn cymorth ar gyfer prosiectau ymgysylltu â'r gymuned wedi'u cyd-greu: https://www.migrationmuseum.org/wp-content/uploads/2023/11/Migration-Museum-Peoples-Tool-Kit_compressed.pdf

Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Cod Moeseg ar gyfer Amgueddfeydd: https://www.museumsassociation.org/campaigns/ethics/code-of-ethics/

Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Fframwaith Cymhwysedd: Engaging audiences and communities: https://www.museumsassociation.org/careers/competency-framework/engaging-audiences-and-communities/

Cymdeithas yr Amgueddfeydd, Power to the People: https://www.museumsassociation.org/campaigns/museums-change-lives/power-to-the-people/

Naomi Alexander, 'Let's Create', adnodd arfer cyd-greadigol:: https://www.naomi-alexander.com/lets-create-do-we-know-how-to

Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Canllawiau Arfer Da: https://www.heritagefund.org.uk/funding/good-practice-guidance

Rhagor o Adnoddau

Of/By/For All, adnoddau i helpu amgueddfeydd gysylltu â'u cymunedau: https://www.ofbyforall.org/

Sefydliad Paul Hamlyn/Dr. Bernadette Lynch, Whose Cake is it Anyway?: a collaborative investigation into engagement and participation in 12 museums and galleries in the UK: http://ourmuseum.org.uk/wp-content/uploads/Whose-cake-is-it-anyway-report.pdf

Sporting Heritage, pecynnau cymorth ar-lein: https://www.sportingheritage.org.uk/toolkit-sitemap

The Past Is Now Experimental Approaches Towards Decolonising the Museum: https://www.youtube.com/watch?v=MXLfdwdCj0I

Sarah Plumb An ethical framework for collaborating with communities, Canolfan Ymchwil Amgueddfeydd ac Orielau a Kettle's Yard: https://le.ac.uk/rcmg/research-archive/open-house

Shape Arts, adnoddau i helpu i wella mynediad at ddiwylliant i bobl anabl: https://www.shapearts.org.uk/pages/news/category/resources

SHARE Museums East Cyd-greu Prosiectau Cymunedol: https://mdse.org.uk/resource-category/audiences/

Tate Participation in the Art Museum: https://www.tate.org.uk/research/tate-papers/34/participation-art-museum-new-models-public-engagement-tate-exchange#:~:text=A%20generation%20of%20museum%20professionals,be%20polyvocal%2C%20inclusive%20and%20brave.

Touring Exhibitions Group adnoddau i gefnogi eich rhaglen arddangosfeydd: https://touringexhibitionsgroup.org.uk/research-resources/

Gerddi, Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Prifysgol Rhydychen (GLAM), Ymgysylltiad Cyhoeddus a Phecyn Cymorth Ymchwil: https://www.glam.ox.ac.uk/per-getting-started

Mae'r holl ddolenni sydd yn y pecyn cymorth hwn yn gywir ym mis Awst 2024.

Diolch

Diolch yn fawr i bartneriaid Cyfnod Datblygu Going Places am gyd-greu'r pecyn cymorth hwn:

Aberdeenshire Museums Service

Arlington Court and the National Trust Carriage Museum, Exmoor

Armagh City, Banbridge and Craigavon Borough Council (FE McWilliam Gallery; Armagh County Museum; The Market Place Theatre & Arts Centre)

Blackwell – The Arts & Crafts house (Lakeland Arts), Windermere

The Bowes Museum, County Durham

Carmarthenshire Museums

Dales Countryside Museum, Yorkshire

Dovecot Studios, Edinburgh

Hartlepool Art Gallery

Inverness Museum & Art Gallery

Irish Linen Centre & Lisburn Museum

Museums Worcestershire

The National Memorial Arboretum, Staffordshire

OnFife

Open Eye Gallery, Liverpool

Penlee House Gallery & Museum, Penzance

Russell-Cotes Art Gallery and Museum, Bournemouth

The Stanley & Audrey Burton Gallery (University of Leeds)

Sunderland Culture – Sunderland Museum & Winter Gardens

Tŷ Pawb, Wrexham

Watts Gallery – Artists' Village, Guildford

William Morris Gallery, London

A llawer o ddiolch am gyfraniadau ychwanegol gan:

CCA: Centre for Contemporary Arts

Edinburgh Printmakers

Horniman Museum and Gardens

Migration Museum

Museum of Making, Derby Museums

Touring Exhibition Group (TEG)

Gyda diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol

Art Fund_





Rhaglen gan Art Fund yw Going Places a wnaed yn bosib gyda chefnogaeth gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a chefnogaeth ychwanegol gan Sefydliad Esmée Fairbairn

Mae Art Fund yn elusen gofrestredig sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (209174) a'r Alban (SC038331)